Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# Adroddiad blynyddol

## Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol

## Cyfrifon blynyddol

2018/19

General
Pharmaceutical
Council

# Adroddiad blynyddol

## Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol
## Cyfrifon blynyddol
## 2018/19

**Adroddiad blynyddol ac adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol i'w cyflwyno i Senedd y DU ac i Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferyllol 2010**

**Cyfrifon blynyddol i'w cyflwyno i Senedd y DU ac i Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 7 Atodlen 1 Gorchymyn Fferyllol 2010**

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch y ddogfen hon, e-bostiwch **communications@pharmacyregulation.org** neu ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar 020 3713 8000.

Mae modd darllen y ddogfen hon ar ein gwefan hefyd **www.pharmacyregulation.org/annualreport** a'i lawrlwytho o **www.official-documents.gov.uk**

# Cynnwys


Cip yn ôl dros ein blwyddyn ........ 6
Rhagair ........ 7
Amdanom ni ........ 9
Y gofrestr ........ 10
Ein llwyddiannau yn 2018/19 ........ 11
Edrych tua’r dyfodol ........ 22
Y gofynion adrodd sydd arnom ........ 29
Ein dull llywodraeth ........ 30
Datganiad llywodraethiant 2018/19 ........ 42
Datganiadau ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ........ 45
- Datganiad ar gyfrifoldeb y Cyngor o ran paratoi'r datganiadau ariannol ........ 48
- Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ........ 49
- Datganiad incwm cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ........ 51
- Datganiad ar y sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 ........ 52
- Datganiad llifoedd arian am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ........ 53
- Datganiad newidiadau i gronfeydd am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ........ 54
- Nodiadau i’r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ........ 55

Atodiad 1: Penderfyniad Cyfrifo’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferyllol 2010 ........ 70

# Cip yn ôl dros ein blwyddyn

Y gofrestr fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019:

**56,288** o Fferyllwyr

**23,387** o Dechnegwyr fferyllol

**14,314** o Fferyllfeydd cofrestredig

Gweithredwyd ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol

Lansiwyd **myGPhC**, ein system ar-lein newydd ar gyfer aelodau ac ymgeiswyr

**3,667** o fferyllfeydd wedi eu harolygu yn 2018/19

**520** o gynlluniau gweithredu wedi eu cytuno gyda fferyllfeydd yn 2018/19

**95%** y cant o'r rhain wedi cyflwyno'r gwelliannau gofynnol*

*mae'r 5 y cant sy'n weddill yn cynnwys cynlluniau sydd wedi eu creu'n ddiweddarach, neu sy'n ymwneud â materion fel gwaith adeiladu mewn lleoliadau, sydd angen rhagor o amser i'w cwblhau.

**2,674** o bryderon wedi eu mynegi ynghylch gweithwyr fferyllol proffesiynol

**86%** o'r pryderon newydd wedi eu cau o fewn saith mis

Dros **7,900** o ymatebion ysgrifenedig i chwe ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu derbyn

Cyfrannwyd at dros **191** o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Prydain

Dros **8.9 million** miliwn o ymweliadau â'n gwefan

Ymatebwyd i dros **87,000** o alwadau ac e-byst oddi wrth aelodau a'r cyhoedd

# Rhagair

## gan ein cadeirydd, Nigel Clarke, a'n prif weithredwr, Duncan Rudkin

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cychwyn ar ein gwaith o ddatblygu gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer rheoli fferylliaeth. Mae'n amlwg i ni y bydd angen i ni weithio'n wahanol dros y 10 mlynedd nesaf – mewn ymateb i newidiadau mewn fferylliaeth, iechyd a gofal cymdeithasol a'r amgylchedd ehangach y gweithiwn ynddo.

Gallai datblygiadau allanol, fel Brexit, gael effaith sylweddol. Yn agosach at gartref, rydym yn disgwyl gweld newidiadau yn ein cyfrifoldebau, wrth i bedair adran iechyd y DU barhau â'u gwaith o ailgydbwyso deddfwriaeth meddyginiaethol a rheoliadau fferyllol.

Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd rolau newydd a mwy sylweddol yn y gwaith o reoli iechyd pobl. Mae'r cynnydd mawr yn y nifer o bresgripsiynwyr fferyllol ar ein cofrestr yn un enghraifft o hyn. Mae'r nifer wedi mwy na dyblu ers 2016, ac wedi cynyddu gan 26% yn 2018/19 yn unig. Mae llywodraethau a systemau iechyd ledled Prydain wedi buddsoddi mewn nifer o swyddi presgripsiynu fferyllol newydd, gan gynnwys mewn ymarfer cyffredinol.

Ond dim ond os bydd gan gleifion a'r cyhoedd ffydd yn y gofal maen nhw'n ei dderbyn gan weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd y gellir cyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau newydd hyn. Mae'r cyhoedd eisiau gwybod bod gan bob aelod o'r tîm fferyllol y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad cywir i allu rhoi gofal diogel ac effeithiol iddyn nhw, a'u bod yn gweithio mewn amgylcheddau sy'n eu helpu nhw i gyflawni hyn.

Y man cychwyn ar gyfer hyn yw sicrhau bod gweithwyr fferyllol yn derbyn yr addysg a'r hyfforddiant cywir i'w galluogi i ddiwallu anghenion cleifion a'r cyhoedd yn hyderus. I gyflawni hyn, rydym yn parhau â'n rhaglen waith i foderneiddio safonau hyfforddiant ac addysg y tîm fferyllol.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddom safonau newydd a fframwaith newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol presgripsiynwyr fferyllol. Ac yn ystod chwarter cyntaf 2019, gofynnon am farn ar newidiadau sylweddol i hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr.

Rydym yn gwybod bod rhai o'r cynigion a wnaethom yn ein hymgynghoriad ar hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr yn heriol mewn sawl ffordd, ac yn golygu dewisiadau anodd o bosibl. Ond credwn hefyd mai nawr yw'r amser i ni feddwl mewn ffordd arloesol ynghylch sut mae angen i hyfforddiant ac addysg newid er mwyn i fferyllwyr y dyfodol feddu ar yr arfau cywir i gyflawni'r rolau fydd angen iddyn nhw eu cyflawni. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n holl randdeiliaid allweddol dros y flwyddyn nesaf i ganfod y ffordd orau ymlaen.

Rydym yn gwybod bod y cyhoedd hefyd am wybod bod y gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd ar ein cofrestr yn parhau i feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol dryw gydol eu gyrfa. At y perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno'r broses ailddilysu. Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd y grŵp cyntaf o fferyllwyr a

thechnegwyr fferyllol eu cofnodion ailddilysu gyda'u cais i adnewyddu aelodaeth. Dyma garreg filltir arwyddocaol yn y gwaith o gynyddu ffydd y cyhoedd bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cynnal safonau ymarfer uchel, ac yn parhau i'w gwella.

Ein nod yw bod ailddilysu yn cynnig dull hollbwysig i adfyfyrio a dysgu gan weithwyr fferyllol proffesiynol, a gwella gofal yn barhaus. Eleni, ymunom gyda'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Chymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU i gyhoeddi adnodd adfyfyrio a dysgu i helpu pobl ymhob rhan o'r maes fferyllol **i ddysgu'r gwersi a gododd o adroddiad Panel Annibynnol Gosport**.

Mae'r adnodd dysgu yn pwysleisio'r angen i adfyfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd, a dysgu ohono, er mwyn sicrhau na fydd y methiannau mewn gofal yn digwydd eto. Rydym wedi annog gweithwyr fferyllol proffesiynol i'w ddefnyddio'n sail i'r cofnod adfyfyriol y mae gofyn iddyn nhw ei greu yn rhan o'u gweithgareddau ailddilysu.

Mae datblygu ein dull rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig wedi bod yn ffocws pwysig yn ystod y ddeuddeng mis diwethaf. Mae ein dull newydd, a gytunwyd gan ein cyngor llywodraethu yn Rhagfyr 2018, yn cynnwys nifer o newidiadau gweithredol. Bydd y rhain yn ein helpu i ddarparu mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod gwasanaethau fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol, ym mha ffordd bynnag y cânt eu trefnu a'u cyflawni.

Drwy'r ymgynghoriad a gynhaliom, clywom fod cleifion a'r cyhoedd yn cefnogi'r newidiadau hyn, sy'n cynnwys symud tuag at arolygiadau heb rybudd a gwneud adroddiadau arolygu'n rhai cyhoeddus.

Rydym hefyd wedi cyflwyno canllawiau newydd ar gyfer perchnogion fferyllfeydd. Mae'r rhain yn nodi'r hyn y mae gofyn iddyn nhw ei wneud i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol ac i sicrhau bod staff cymorth fferyllol yn cael eu hymbweru ac yn alluog i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn disgwyl y bydd y flwyddyn nesaf yn un fydd yn gweld mwy o ddatblygu a chynnydd, wrth i ni adeiladu ar waith sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn a diffinio ein gweledigaeth dymor hirach ar gyfer rheoleiddio fferylliaeth.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn gyflym i ddatblygiadau, er mwyn gwireddu gwell deilliannau ar gyfer ein cleifion.



**Nigel Clarke**
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# Amdanom ni

## Pwy ydym ni

Rydym yn rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydym yn gweithio i roi sicrwydd ar safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a'u gwella.

## Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydym yn gosod y safonau sydd angen i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd er mwyn cael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydym yn gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd ac i gynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth os bydd pryderon am weithiwr fferyllol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydym yn helpu i hybu proffesiynoldeb, cefnogi gwelliant parhaus a sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

## Newidiadau i…

### Ein Cyngor

Eleni, daeth ail dymor pump o aelodau ein cyngor i ben ar 31 Mawrth 2019. Hoffem ddiolch i Berwyn Owen, David Prince, Mary Elford, Mohammed Hussain a Samantha Quaye am eu cyfraniad.

Cynhaliom broses recriwtio yn ystod hydref 2018 ac mae pump aelod newydd wedi eu hapwyntio gan y Cyfrin Gyngor i'r Cyngor. Dechreuodd yr aelodau newydd, Aamer Safdar, Ann Jacklin, Neil Buckley, Penny Hopkins a Rima Makarem, eu tymor ym mis Ebrill 2019.

Mae tri o aelodau presennol y Cyngor, Arun Midha, Joanne Kember and Mark Hammond, wedi eu hailbenodi ar gyfer ail dymor.

**Mae rhagor o wybodaeth am aelodau'r Cyngor yn adran 'Amdanom ni' ein gwefan**.

### Ein staff

Apwyntiwyd Mark Voce yn Gyfarwyddwr Addysg a Safonau yn Ionawr 2019, ar ôl cyflawni'r swydd ar sail dros dro ers 2018. Ymunodd Carole Auchterlonie â ni yn Ionawr 2019 fel Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer.

Gadawodd Megan Forbes, Dirprwy Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, y sefydliad ym mis Awst 2018.

# Y gofrestr




## Y gofrestr fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019

Mae modd i bob aelod o'r cyhoedd wirio a yw fferyllydd, technegydd fferyllol neu fferyllfa'n gofrestredig ym Mhrydain, drwy wirio gwybodaeth ar y gofrestr ar ein gwefan. Mae modd hefyd weld unrhyw benderfyniadau rydym wedi eu gwneud ynghylch addasrwydd i ymarfer fferylliaeth gweithwyr fferyllol, a pha fferyllwyr sydd hefyd yn 'bresgripsiynwyr atodol' neu'n 'bresgripsiynwyr annibynnol'.

Er mwyn gallu ymarfer ym Mhrydain, rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ein sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Dim ond wedyn y gallan nhw ymuno â'r gofrestr. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw un sydd am gofrestru fferyllfa neu adnewyddu cofrestriad fferyllfa hefyd gyrraedd ein safonau.

Pan fo fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol yn adnewyddu eu cofrestriad gyda ni bob blwyddyn, rhaid iddynt ddatgan cadarnhad eu bod yn cyrraedd ein safonau i gyd.

Mae unrhyw un nad yw'n gofrestredig gyda ni, ond yn ymarfer fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol, yn torri'r gyfraith a gellir ei erlyn.

**Mae modd chwilio drwy'r gofrestr ar-lein i weld manylion am fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd**.

## Ffioedd cofrestru

Yn ystod 2018/19, arhosodd ffioedd ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Yn ystod tymor yr hydref yn 2018, cynhaliom ymgynghoriad ar gynyddu rhai o'n ffioedd. Derbyniom dros 5,000 o ymatebion, a gafodd eu crynhoi mewn adroddiad. Ystyriodd ein Cyngor yr adroddiad a phenderfynwyd cynyddu ffioedd mynediad ac adnewyddu fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig o 1 Gorffennaf 2019.

Dyma'r tro cyntaf i'r CFfC gynyddu ffioedd ers 2015, ac ar gyfer gweithwyr fferyllol bydd y ffioedd yn dal i fod yn is na'r rhai oedd yn cael eu codi yn 2011.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn datblygu strategaeth ariannol tymor hirach a bydd hyn yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr ar ein strwythurau ffioedd a chostau ac adolygiad llety.

# Ein llwyddiannau yn 2018/19

### Cyflwyno newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig

Penderfynom gyflwyno nifer o newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil ymgynghoriad mawr o fewn y sector fferylliaeth ac ymhlith y cyhoedd a chleifion.

### Cyflwyno ailddilysu

Am y tro cyntaf, cyflwynodd gweithwyr fferyllol proffesiynol gofnod ailddilysu wrth adnewyddu eu haelodaeth.

### Datblygu safonau newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg y tîm fferyllol

Parhaom â'n gwaith yn adolygu'r safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg y tîm fferyllol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno safonau newydd ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol annibynnol, ac ymgynghori ar safonau newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr.

### Gwella ein dulliau gweithio

Rydym wedi parhau â rhaglen waith sylweddol i wella'r gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer y bobl sy'n gofrestredig gyda ni, ac rydym wedi dechrau datblygu gweledigaeth 10-mlynedd.

### Integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth i'n gwaith

Yn 2018/19 rhoddwyd blaenoriaeth i sefydlu gweithle cynhwysol a chefnogi staff i adnabod effeithiau posibl polisïau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

# Cyflwyno newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig

Eleni, fe gynhaliom **ymgynghoriad mawr gyda chleifion a'r cyhoedd, a thrwy'r sector fferylliaeth gyfan**, ynghylch datblygu ein dull rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig.

### Adborth ar ein cynigion

Derbyniom 812 o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad, yn cynnwys 685 gan unigolion a 127 gan sefydliadau. Cwrddom â rhanddeiliaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac aeth ein harolygwyr i 21 o gyfarfodydd fferyllol lleol i siarad â gweithwyr fferyllol proffesiynol yn y tair gwlad.

Comisiynwyd YouGov gennym hefyd i gynnal arolwg ar-lein, i ddarganfod barn y cyhoedd ar ein cynigion. Holwyd sampl o 2040 o oedolion yn byw ar hyd a lled Prydain ganddynt, rhwng 8 a 9 Awst 2018.

**Canlyniadau arolwg YouGov**

- 76% o bobl yn cefnogi cyhoeddi adroddiadau arolygu
- 72% o bobl yn cefnogi cyhoeddi cynlluniau gweithredu
- 79% o bobl yn cytuno bod symud i arolygiadau heb rybudd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod fferyllfeydd yn cyrraedd safonau gofal diogel ac effeithiol

### Newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig

Helpodd yr hyn a glywom drwy'r ymgynghoriad ein Cyngor i benderfynu ar yr **egwyddorion fydd yn llywodraethu sut bydd y CFfC yn rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig yn y dyfodol** a nifer o newidiadau gweithredu yn unol â'r egwyddorion hynny.

Mae'r newidiadau i'n dull yn cynnwys:

- **newidiadau i'r mathau o arolygiadau**
  Bydd y model newydd yn cynnwys tri math o arolwg: arolygiadau arferol, arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth ac arolygiadau thematig
- **symud tuag at arolygiadau heb rybudd fel rheol gyffredinol yn y dyfodol**
  Bydd hyn yn sicrhau bod canlyniad yr arolygiad yn adlewyrchu a ydy'r fferyllfa yn cyrraedd y safonau bob dydd
- **newid canlyniadau arolygiadau**
  Bydd dau ganlyniad cyffredinol posibl yn deillio o arolygiad: 'safonau wedi eu cyrraedd' neu 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Bydd hefyd bedwar canlyniad posibl ar gyfer pob un o'r egwyddorion: 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer da' ac 'ymarfer rhagorol'
- **cyhoeddi adroddiadau arolygu, a chynlluniau gwelliant pan yn berthnasol, ar wefan newydd**
  Bydd y wefan yn cael ei dylunio mewn ffordd sy'n sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd chwilio amdani a'i dadansoddi. Bydd disgwyl hefyd i berchnogion fferyllfeydd

arddangos canlyniadau arolygiadau yn eu fferyllfeydd

- **gofyniad bod pob safon i'w chyrraedd yn**
- **cael ei chyrraedd er mwyn derbyn canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd' cyffredinol**
  Os gwelir bod unrhyw un neu rai o'r safonau heb eu cyrraedd, bydd hyn yn arwain at ganlyniad 'safonau i gyd heb eu cyrraedd' cyffredinol
- **rhannu enghreifftiau o ymarfer nodedig**
  Bydd enghreifftiau o ymarfer nodedig a welwyd yn ystod arolygiadau yn cael eu cyhoeddi ar 'hyb gwybodaeth' ar y wefan newydd. Bydd hyn yn annog dysgu a gwelliant parhaus mewn fferylliaeth

**Arolygu fferyllfeydd**

3,667 o fferyllfeydd wedi eu harolygu yn 2018/19

520 o gynlluniau gweithredu wedi eu cytuno gyda fferyllfeydd yn 2018/19

95 y cant o'r rhain wedi cyflwyno'r gwelliannau gofynnol*

*Mae'r 5 y cant sy'n weddill yn cynnwys cynlluniau sydd wedi eu creu'n ddiweddarach, neu sy'n ymwneud â materion fel gwaith adeiladu mewn lleoliadau, sydd angen rhagor o amser i'w cwblhau.

**Darllen mwy am yr hyn a glywom yn ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad**

### Gweithredu

Newidiwyd i arolygiadau heb rybudd yn defnyddio'r canlyniadau arolygu newydd o Ebrill 2019. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau arolygiadau ers Ebrill 2019 ar wefan cyhoeddi adroddiadau fferyllol newydd fydd yn cael ei lansio yn ystod Haf 2019.

I'n helpu i roi prawf ar ein mesurau gweithredol, a'u mireinio, gan ddefnyddio adborth o'r ymgynghoriad, creom grŵp cyfeirio gweithredol. Roedd y grŵp yn cynnwys fferyllwyr â chyfrifoldeb, fferyllwyr goruchwyliol a chynrychiolwyr o gyrff fferyllol o bob rhan o'r sector yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Cynhaliom dri chyfarfod gyda'r grŵp cyfeirio gweithredol rhwng Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019. Yn y rhain, rhoddwyd ystyriaeth i faterion oedd yn cynnwys ein hagwedd at 'ymarfer nodedig', adborth ar ddyluniad y wefan cyhoeddi adroddiadau, a barn rhanddeiliaid ar yr atodiad arolygu i'n polisi cyhoeddi a datgelu.

## Diweddaru ein canllawiau ar ddarparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngrwyd

Ym Mehefin 2018, cyhoeddom bapur trafod yn egluro ein cynigion i gryfhau ein canllawiau ar gyfer perchnogion fferyllfeydd ar ddarparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngrwyd.

Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno dulliau newydd o sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond meddyginiaethau sy'n ddiogel ac yn glinigol briodol iddyn nhw a gyflenwir iddynt.

At ei gilydd, cafodd y mesurau diogelwch hyn gefnogaeth gref gan dros 800 o unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r papur trafod, gan gynnwys cleifion ac aelodau o'r cyhoedd. Comisiynwyd YouGov gennym hefyd i gynnal ymchwil ar-lein ymhlith 2000 o aelodau o'r cyhoedd i ddeall eu barn ynghylch cyrchu

meddyginiaethau ar-lein a'r hyn y dylem ei gynnwys yn y canllawiau newydd, cryfach.

Helpodd yr hyn a glywom ni i roi trefn derfynol ar ein canllawiau cryfach, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.

## Ymateb yn effeithiol i faterion a datblygiadau

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ystyried yn ofalus wybodaeth a ddaeth i law drwy ein gweithgareddau rheoleiddio a gan sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw, a'r hyn sydd angen i ni ei wneud mewn ymateb. Un enghraifft o hyn yw ein gwaith gyda sefydliadau partner i helpu i sicrhau bod menywod a merched yn derbyn y wybodaeth gywir ynghylch sodium valproate.

Mae Sodium valproate yn cael ei ddefnyddio i drin cyflyrau megis epilepsi ac anhwylder deubegwn. Mae plant sy'n cael eu geni i fenywod sy'n cymryd valproate yn ystod beichiogrwydd yn wynebu risg sylweddol o ddiffygion geni ac anhwylderau datblygu parhaus. Cyhoeddwyd canllawiau gan yr Asiantaeth Rheoleiddiol Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA) yn 2018. Dywed nad yw valproate i gael ei roi ar bresgripsiwn bellach i unrhyw fenyw neu ferch sy'n gallu cael plant, oni bai bod ganddi raglen rwystro beichiogrwydd ar waith.

Gweithiom yn agos gyda'r MHRA a sefydliadau eraill i helpu i sicrhau bod perchnogion fferyllfeydd a thimau fferyllol yn ymwybodol o'r gofyniad Rhaglen Rwystro Beichiogrwydd yn y canllawiau. Mae Arolygwyr y CFfC yn gwirio cydymffurfiaeth gyda'r canllaw hwn erbyn hyn wrth arolygu fferyllfeydd. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n cynrychioli plant a theuluoedd sydd wedi eu niweidio wedi i valproate gael ei ddefnyddio yn ystod beichiogrwydd, i'n helpu i ddeall profiad cleifion a allai fod wedi derbyn valproate ar bresgripsiwn, a phrofiadau eu teuluoedd.

## Cyflwyno ailddilysu ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Gweithwyr fferyllol proffesiynol oedd yn adnewyddu eu haelodaeth erbyn 31 Hydref 2018 oedd y grŵp cyntaf i ddilyn y broses ailddilysu. Fe gyflwynon nhw eu cofnodion wrth adnewyddu eu haelodaeth, yn defnyddio system ar-lein newydd myGPhC. Llwyddodd ychydig dan 95% ohonyn nhw i gwblhau'r gofynion newydd yn llwyddiannus.

O'r dyddiad hwnnw, rhaid i bob gweithiwr fferyllol sy'n adnewyddu aelodaeth gyda ni gyflwyno cofnodion i ddangos sut maen nhw wedi gweithredu a chofnodi gweithgareddau ailddilysu.

Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2019, roedd 47,000 o weithwyr fferyllol proffesiynol (59% o'r gofrestr) wedi cyflwyno eu cofnodion ailddilysu wrth adnewyddu eu haelodaeth. Bydd yn rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol gyflwyno eu cofnodion ailddilysu am y tro cyntaf erbyn 15 Hydref 2019.

### Beth yw ailddilysu?

Mae ailddilysu'n broses sy'n helpu i ddangos bod cyfiawnhad dros y ffydd sydd gan y cyhoedd mewn fferylliaeth. Fe'i datblygwyd gennym drwy ddefnyddio'r hyn a ddysgom o dair blynedd o beilota, ymchwilio a phrofi. Mae'n helpu fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i:

- sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth broffesiynol yn cael eu diweddaru'n gyson
- adfyfyrio ar sut gallan nhw wella
- dangos sut maen nhw'n darparu'r gwasanaeth diogel ac effeithiol mae cleifion a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl, fel a nodir yn y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Bydd yn rhaid i weithwyr fferyllol fydd yn adnewyddu eu haelodaeth o 31 Hydref 2019 gofnodi pedair enghraifft o weithgaredd datblygu proffesiynol parhaus (DPP) maen nhw wedi eu cyflawni yn ystod y 12 mis blaenorol a'u cyflwyno gyda'u cais i adnewyddu.

Yn eu hail flwyddyn yn cyflwyno cofnodion ailddilysu, a phob blwyddyn wedi hynny, bydd yn rhaid iddynt gyflwyno pedwar cofnod DPP, cofnod trafod rhwng cymheiriaid a chofnod adfyfyriol.

**Darllen y fframwaith ailddilysu**, sy'n nodi ein disgwyliadau o ran yr hyn sydd yn rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ei wneud bob blwyddyn i gyflawni gofynion ailddilysu.

### Helpu gweithwyr fferyllol i gwblhau'r broses ailddilysu

Yn ogystal â siarad mewn 70 o ddigwyddiadau am y broses o roi ailddilysu ar waith, gan gyrraedd 4500 o randdeiliaid, datblygom hefyd ystod o ddeunyddiau i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddeall a chwblhau eu hailddilysu, yn cynnwys:

- fideo wedi ei animeiddio ar YouTube i roi trosolwg o'r broses, ac egluro sut i gyflwyno cofnodion a sut y byddan nhw'n cael eu hadolygu. Mae'r fideo wedi ei wylio dros 13,000 o weithiau

- llyfrgell o gofnodion DPP, trafodaethau gyda chymheiriaid a chofnodion adfyfyriol enghreifftiol, gydag enghreifftiau o wyth maes ymarfer. Mae hyn yn cynnwys swyddi nad ydynt yn gweithio gyda chleifion yn uniongyrchol a swyddi rheoli, a gwaith locwm
- cynnal webinar ym Mehefin 2018 oedd yn cynnwys cyflwyniad a sesiwn Holi ac Ateb, er mwyn i weithwyr fferyllol na fu'n bosibl iddynt fynd yn bersonol i gyflwyniad gael cyfle i ddysgu am ailddilysu a holi cwestiynau
- dolenni at adnoddau wedi eu creu gan gyrff proffesiynol a sefydliadau hyfforddi

## Datblygu safonau newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol y tîm fferyllol

Parhaom â'n rhaglen waith yn adolygu'r safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg y tîm fferyllol.

### Safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr

Yn Ionawr 2019, lansiom ymgynghoriad hollbwysig yn cynnig newidiadau arwyddocaol i hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr.

Mae rôl y fferyllydd yn esblygu mewn ymateb i newidiadau yn y ffordd mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ynghylch sut dylai hyfforddiant ac addysg newid er mwyn sicrhau bod fferyllwyr yn dyfodol yn abl i gyflawni'r rôl fydd ei hangen i ddarparu gwasanaeth diogel, uchel ei safon i gleifion a'r cyhoedd.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- integreiddio astudio academaidd a phrofiad yn y gweithle, a rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu drwy brofiad a rhwng proffesiynau
- ymagwedd fwy strwythuredig tuag at ddysgu wrth ymarfer (adwaenwyd gynt fel hyfforddiant cyn-gofrestru) gyda mwy o gyfarfodydd cynnydd wedi eu cofnodi
- cael un set o ddeilliannau dysgu yn ymwneud ag addysg a phrofiad ymarferol
- adolygu'r deilliannau dysgu fel eu bod yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau clinigol a sgiliau cyfathrebu, tra hefyd yn

cydnabod pwysigrwydd creiddiol gwyddoniaeth

Mae'r cynigion hefyd yn ymdrin â sut mae darparwyr cyrsiau yn dethol myfyrwyr a darparu eu cyrsiau. Maen hyn yn cynnwys:

- cryfhau prosesau dethol a derbyn
- cryfhau gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- gofyniad bod darparwyr cyrsiau yn cynnal adolygiad blynyddol ar berfformiad myfyrwyr a derbyniadau, yn erbyn nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, a
- disgwyliad y bydd ysgolion fferylliaeth, cyflogwyr a chomisiynwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynigion i integreiddio astudio academaidd ac ymarfer

## Datblygu ein cynigion

Cyn i'r ymgynghoriad agor, cwrddom ag ysgolion fferylliaeth, sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth hyfforddiant ac addysg, swyddogion llywodraeth y DU a gweinidogion iechyd Cymru a'r Alban, i gasglu eu barn ar sut y dylai'r safonau a'r deilliannau dysgu newid.

Rydym hefyd wedi parhau i ystyried ymhlygiadau datblygiadau polisi hyfforddiant ac addysg yng ngwahanol wledydd Prydain. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y safonau roeddem yn eu datblygu yn ddigon hyblyg i weithio o fewn darpariaeth addysg fferyllol amrywiol ac arloesol.

Er enghraifft:

- yn yr Alban, roeddem ynghlwm wrth y gwaith i fwrw ymlaen â pholisi llywodraeth yr Alban i gyflwyno rhaglen hyfforddiant ac addysg cychwynnol 5-mlynedd integredig ar gyfer fferyllwyr, ac
- yng Nghymru, roeddem ynghlwm wrth y gwaith o gynyddu'r nifer o leoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddeion fferyllol a chynnig hyfforddiant aml-sector i bob hyfforddai fferyllol cyn-gofrestru o 2020

## Safonau hyfforddiant ac addysg presgripsiynwyr annibynnol

Yn Ionawr 2019 cyhoeddom **safonau newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg presgripsiynwyr fferyllol annibynnol**, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym yn ystod Gwanwyn 2018.

Nod y safonau newydd yw sicrhau bod cyrsiau presgripsiynu yn 'addas at eu diben' ac y bydd deilliannau dysgu yn helpu i baratoi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol ar gyfer eu rôl nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rolau hynn yn parhau i ddatblygu ac ehangu. Mae nifer y presgripsiynwyr  annibynnol ar ein cofrestr yn dal i gynyddu: yn ystod 2018/19, cynyddodd y nifer o bresgripsiynwyr ar ein cofrestr o 6,281 i 7,921 – cynnydd o 26%.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr hyfforddiant ddylunio cyrsiau'n ymgorffori'r safonau newydd yn ystod 2019. Byddwn yn newid i achredu cyrsiau ar sail y safonau newydd yn ystod Haf 2019. O hynny ymlaen, byddwn yn defnyddio'r safonau newydd i achredu pob darparwr.

Cyhoeddom hefyd fframwaith tystiolaeth drafft ar gyfer darparwyr i'w helpu i ddylunio a datblygu cyrsiau'n ymgorffori'r safonau newydd. Gofynnom i ddarparwyr oedd wedi dechrau defnyddio'r fframwaith i roi adborth arno i ni, a byddwn yn cynhyrchu fersiwn derfynol yn nes ymlaen yn 2019.

## Safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn ymwneud â chomisiynwyr, darparwyr hyfforddiant ac addysg a chyflogwyr ar hyd a lled Prydain wrth i waith barhau ar ddatblygu cyrsiau newydd fydd yn gyrraedd y safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol. **Cyflwynom y safonau newydd hyn yn 2017**, ac rydym yn disgwyl dechrau achredu'r cyrsiau newydd yn 2019/20.

## Staff cymorth fferyllol

Yn rhan o'n hadolygiad ar hyfforddiant ac addysg y tîm fferyllol, roeddem am ystyried hyfforddiant ac addysg staff cymorth fferyllol a sut y gallem gryfhau'r fframwaith rheoleiddio.

Mewn ymgynghoriad yn 2017 ar ganllawiau newydd ar sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol, cynigiom rai newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio o ran aelodau anghofrestredig o'r tîm. Wedi dwys ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad hwnnw, penderfynodd ein Cyngor bod angen mwy o waith yn y maes hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

Yn rhan o'r gwaith pellach hwn, cynhaliom grwpiau ffocws yn Llundain, Glasgow a Chaerdydd gyda chleifion, y cyhoedd a staff cymorth fferyllol ym mis Hydref 2018. Roeddem am ddeall mwy ynghylch pa ofynion y dylid eu gosod yn y dyfodol. Siaradom â dros 50 o aelodau'r cyhoedd a dros 50 o aelodau staff cymorth fferyllol yn ystod y tri digwyddiad.

**Casglom yr adborth a glywom ynghyd mewn adroddiad** ac rydym yn defnyddio hwn i ddatblygu cynigion newydd yn ystod 2019 ynghylch hyfforddiant staff cymorth fferyllol.

## Canllawiau newydd ar sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol

Ym Mehefin 2018, cyhoeddom ganllawiau newydd yn nodi'r hyn y mae disgwyl i berchnogion fferyllfeydd ei wneud i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol a chyrraedd y safonau **a nodir dan Egwyddor 2 y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig**.

Mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad 2017, cynhwysom adran yn y canllawiau ynghylch yr hyn y dylai perchnogion fferyllfeydd ei wneud i sicrhau bod digon o staff â'r cymwysterau a'r sgiliau addas ymhob fferyllfa.

Ysgrifennom at bob perchennog fferyllfa adeg cyhoeddi'r canllawiau i ofyn iddynt roi'r camau gweithredu angenrheidiol yn eu lle i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau a dangos eu bod wedi ystyried y canllaw hwn. Mae ein harolygwyr hefyd wedi bod yn chwilio am dystiolaeth o hyn yn ystod arolygiadau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chymdeithasau masnach, undebau llafur a chyrff proffesiynol fferyllol i'n helpu i ddeall sut mae'r canllaw yn cael ei roi ar waith, a'r heriau y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol, timau fferyllol a pherchnogion fferyllfeydd yn eu hwynebu ac a allai gynyddu'r risg o beidio â chyrraedd ein safonau a chyflawni'r canllawiau. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth bord gron yn Chwefror 2019.

## Gwella’r ffordd rydyn ni’n gweithio

### Yn ystod 2018/19 rydym wedi parhau i adeiladu ar ein hymrwymiad i wella’r ffordd rydyn ni’n gweithio.

Rydym wedi gwneud mwy o waith ar strwythur ein sefydliad ac fe barhaom â’n rhaglen newid diwylliant. Rydym wedi monitro ac adolygu ein cynnydd yn gyson, gan gynnwys drwy gyfrwng rhaglen o arolygon staff. Rydym hefyd wedi cwrdd â chyrff rheoleiddio eraill i weld sut mae ein diwylliant gwaith ni yn cymharu â sefydliadau tebyg.

Rydym wedi bwrw ymlaen gyda rhaglen fawr o welliannau i’r gwasanaethau a ddarparwn i bobl sy’n cofrestru gyda ni. Ym mis Mawrth 2018 fe lansiom myGPhC, ein gwasanaeth ar-lein newydd ar gyfer aelodau ac ymgeiswyr. Eleni, defnyddiodd  gweithwyr fferyllol proffesiynol y system newydd i adnewyddu aelodaeth a chyflwyno ceisiadau am gofrestriad tro cyntaf. Byddwn yn parhau â gwaith i gynnig rhagor o brosesau cofrestru ac ailddilysu ar-lein yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae’r system newydd wedi ein helpu i reoli ein data’n fwy effeithiol, drwy wella ansawdd y wybodaeth a gadwn a gwneud y gwaith o’i chasglu’n fwy diogel. Mae hefyd yn ein helpu i gadw at ofynion y Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data (GDPR).

Rydym yn dod â gwybodaeth sydd wedi ei chasglu drwy ein gwaith rheoleiddio a data gan ffynonellau allanol at ei gilydd, a gweithio tuag at wella:

- ansawdd a chysondeb y data rydyn ni’n ei gadw
- ein seilwaith data, ac
- effeithlonrwydd ein galluoedd adrodd

Yn ystod y flwyddyn parhaom i fonitro ein costau gweithredu. Rydym wedi defnyddio mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli bob tro y bu’n bosibl gwneud hynny, megis ein proses gynllunio a chyllidebu arferol, er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ein heffeithiolrwydd a’n heffeithlonrwydd. Mae’r Grŵp Sicrwydd a Chynghori ar Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd  (GSChEE) wedi ei newid yn Bwyllgor Cyllid a Chynllunio a bydd yn parhau i adrodd ar ein cynnydd i’r Cyngor.

Ymgynghorom eleni ar godi ffioedd ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig. Cytunodd ein Cyngor i’r cynnydd cyntaf i’n ffioedd ers 2015, a bydd y ffioedd newydd ar waith o fis Gorffennaf 2019.

Rydym hefyd wedi dechrau ar y gwaith, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ddatblygu gweledigaeth 10-mlynedd ar gyfer y sefydliad, i sicrhau ein bod yn parhau’n berthnasol ac yn effeithiol, ac yn abl i gyflawni ein hamcanion. Bydd y weledigaeth hefyd yn ein helpu i gynllunio at a chyrraedd sefyllfa gyllidol gynaliadwy. Yn rhan o hyn, rydym wedi dechrau datblygu strategaeth gyllidol tymor hirach. Mae hyn yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr ar ein strwythurau costau a ffioedd, ac adolygiad llety.

## Integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth i'n dulliau gweithredu

Yn 2018/19 rhoddom flaenoriaeth i sefydlu gweithle cynhwysol ag ymrwymiad cryf i gydbwysedd bywyd/gwaith.

Rydym wedi parhau, eleni, i gyflawni'r ddyletswydd sydd arnom o ran cydraddoldeb, ac amrywiaeth a chynhwysiant, fel rheoleiddiwr a chyflogwr, drwy:

- gynnal hyfforddiant rheolaidd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC), yn cynnwys:
  - hyfforddiant ar gydraddoldeb a rhagfarn ddiarwybod ar gyfer pob aelod staff a gweithwyr cysylltiol
  - hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd wedi ei gysylltu ag addasiadau ar gyfer staff, gweithwyr cysylltiol ac ymwelwyr
  - parhau i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl 'Headtorch' yn rhan o'n ffocws ar iechyd meddwl
  - sefydlu grŵp craidd cymorth gofal iechyd ledled y sefydliad
- creu rhwydweithiau i helpu i hybu gweithle cynhwysol, yn cynnwys:
  - rhwydweithiau menywod a chymdeithasol ar gyfer staff Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig
  - rhwydweithiau LHDT+ ac anabledd ar y cyd gyda rheoleiddwyr eraill
- sefydlu grŵp arwain CAC sy'n monitro a rhoi sicrwydd ynghylch ymarfer CAC, gyda chynrychiolaeth o bob cwr o'r sefydliad
  - cyflwyno rhaglen reolaidd o seminarau amser cinio, blogiau a thrydariadau, yn dathlu hanes LHDT, Diwrnod Rhyngwladol Menywod, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, Mis Hanes Pobl Dduon, a'r Diwrnod Anabledd
  - cyhoeddi dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau am y tro cyntaf
  - parhau â'n haelodaeth ar y Fforwm Anabledd Busnes a Rhwydwaith Anabledd Wharfability, ac ymuno â Stonewall a Disability Confident
- darparu rhagor o gymorth i staff i adnabod effaith bosibl polisïau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn cynnwys templedi y gall staff eu defnyddio i gynnal dadansoddiadau ar effaith ar gydraddoldeb
- cyflwyno mesurau monitro a dadansoddi i'r gwaith cychwynnol o adolygu ac asesu pryderon am addasrwydd i ymarfer
- cynyddu'r nifer o ymgeiswyr BAME ar gyfer swyddi gwag ar y cyngor a phwyllgorau
- parhau i fonitro CAC yn ei safonau addysg, adolygu ein fframwaith addasu asesiadau cyn-gofrestru ac ymwneud â grwpiau amrywiol o ddeall goblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth posibl ar ein gwaith yn gosod safonau

### Cyfathrebu â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Rydym yn ymrwymedig at sicrhau bod aelodau Cymraeg eu hiaith o'r cyhoedd yn gallu deall ein

gwaith, a bod yn rhan ohono, fel y nodir yn ein **Cynllun Iaith Gymraeg**.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi parhau i gyhoeddi ein dogfennau allweddol – yn cynnwys safonau, canllawiau, ymgynghoriadau a deunyddiau recriwtio aelodau'r cyngor – yn y Gymraeg.

Rydym wedi cyflwyno teclyn hygyrchedd – Recite Me – i'n gwefan, sy'n cynnwys cyfieithiad Cymraeg awtomataidd.

## Safonau'r Gymraeg

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn diweddaru'r fframwaith cyfreithiol sydd ar waith ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r mesur yn darparu ar gyfer datblygu safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Bydd y rhain yn graddol ddisodli'r cynlluniau Iaith Gymraeg sydd ar waith ar hyn o bryd. Rydym ni, ynghyd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, wedi parhau i drafod cwmpas a graddau'r safonau fydd yn berthnasol ar ein cyfer ni gyda Llywodraeth Cymru.

# Edrych tua'r dyfodol

Rydym yn nhrydedd flwyddyn, blwyddyn olaf, **ein cynllun strategol ar gyfer 2017–20**, sy'n nodi sut y byddwn yn gwireddu ein hamcan allweddol o gefnogi a gwella darpariaeth gofal diogel ac effeithiol a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth, drwy sicrhau bod:

- gan y tîm fferyllol y wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau sydd eu hangen
- fferyllfeydd cofrestredig yn darparu gofal a gwasanaethau diogel ac effeithiol
- rheoleiddio fferyllol yn effeithiol ac yn effeithlon

Un o'n prif flaenoriaeth ar gyfer 2019/20 fydd creu fersiwn derfynol o'n gweledigaeth 10-mlynedd. Yn rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu cynllun blynyddol ar gyfer 2019/20, sy'n nodi ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Adeiladu ar ein galluedd data a mewnwelediad

Yn 2019/20 byddwn yn:

- parhau i ddiweddaru ein hagwedd at ddata, a gweithdrefnau data, i sicrhau cydymffurfiaeth gyda ddeddfwriaeth diogelu data
- datblygu rhaglen ymglymu ac ymchwilio strategol
- datblygu meddylfryd strategol ynghylch gwerthuso ein gwaith yn systematig yn y dyfodol
- dechrau adrodd yn ehangach ar ein perfformiad ar sail ffynonellau data cynaliadwy o ansawdd
- datblygu a gweithredu model gwybodaeth ar gyfer rheoli gwybodaeth sy'n dod i law
- datblygu ystod ehangach o wybodaeth i'w chasglu yn gefn i weithredoedd rhagweithiol wedi eu seilio ar wybodaeth
- buddsoddi mewn dull sefydliad cyfan i reoli ymholiadau sy'n ein cyrraedd am fferylliaeth

## Datblygu agwedd gymesur ac adferol tuag at addasrwydd i ymarfer

Yn 2019/20 byddwn yn:

- datblygu ac ymglymu ynghylch strategaeth ar gyfer ymagwedd gymesur ac adferol tuag at addasrwydd i ymarfer
- dylunio dull rheoli materion iechyd sy'n helpu aelodau i ddychwelyd i ymarfer pan yn briodol
- gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â phawb sydd ynghlwm wrth y broses addasrwydd i ymarfer
- gwella'n dealltwriaeth o effeithiau anfwriadol y broses addasrwydd i ymarfer ar bawb sydd ynghlwm wrth y broses

## Rhoi ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig ar waith

Yn 2019/20 byddwn yn:

- gweithredu'r egwyddorion a'r dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig sydd wedi eu diweddaru

- cyhoeddi ein hadroddiadau arolygu ac enghreifftiau o ymarfer nodedig ar ein hyb gwybodaeth
- gwella ein gallu i asesu'r ystod ehangach o wasanaethau fferyllol sy'n defnyddio dulliau clinigol a thechnolegol
- gweithredu rhaglen ragweithiol o godi ymwybyddiaeth am faterion allweddol sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a'u cyfathrebu i'r sector a'r cyhoedd
- defnyddio ein opsiynau gorfodi yn llawn yn unol â'n polisi gorfodi

## Gosod a chynnal safonau

Yn 2019/20 byddwn yn:

- cytuno ar set ddiwygiedig o safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol (HAC) fferyllwyr, yn barod i'w rhoi ar waith
- gweithredu safonau diwygiedig hyfforddiant ac addysg (HA) presgripsiynwyr fferyllol annibynnol ac ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol
- cytuno ar bolisi hyfforddiant ac addysg staff cymorth fferyllol
- cychwyn ar adolygiad ar y ffordd rydym yn achredu darparwyr hyfforddiant ac addysg
- buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu safonau newydd ar gyfer goruchwylwyr, prif fferyllwyr a fferyllwyr â chyfrifoldeb, yn amodol ar newidiadau deddfwriaethol
- gweithredu rhan olaf ein polisi ailddilysu gydag aelodau'n cyflwyno cofnod adfyfyriol ac adolygiad cymheiriaid
- dechrau achredu cyrsiau hyfforddiant ac addysg newydd ar gyfer technegwyr fferyllol, wedi eu seilio ar y safonau diwygiedig


## Gweithredu fel sefydliad proffesiynol heb wastraff adnoddau

Yn 2019/20 byddwn yn:

- lansio ein gweledigaeth 10-mlynedd a datblygu cynllun strategol yn gefn iddi
- datblygu strategaeth gyllidol tymor canol i hir
- symud ceisiadau ar gyfer hyfforddiant cyn-gofrestru fferyllwyr, yr asesiad cofrestru a chofrestriad cychwynnol technegwyr fferyllol ar-lein
- parhau â'r gwaith o symud ein seilwaith a gwasanaethau TG i'r cwmwl
- datblygu strategaeth tymor canol i hir ar gyfer datblygu ein systemau busnes allweddol wedi ei halinio â'n blaenoriaethau sefydliadol
- datblygu strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi ei diweddaru, gyda ffocws ar swyddogaethau rheoleiddiol
- drafftio, cynllunio a dechrau gweithredu strategaeth datblygu sefydliadol tair i bum mlynedd
- cychwyn adolygiad ar ein hanghenion llety nawr ac yn y dyfodol

# Adroddiad addasrwydd i ymarfer

## Sut daeth pryderon i law yn 2018/19




**Beth yw 'addasrwydd i ymarfer'?**

Rydym yn disgrifio addasrwydd i ymarfer (AY) fel addasrwydd person i fod ar ein cofrestr heb gyfyngiadau arno. Rydym yn ystyried sut byddwn yn diffinio addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol yn rhan o'r adolygiad ar ein strategaeth yn y maes hwn.

Mae delio'n effeithiol gyda phryderon am addasrwydd i ymarfer wrth galon ein hymrwymiad at ddiogelu cleifion a'r cyhoedd, a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Os ydych yn pryderu nad yw fferyllydd neu dechnegydd fferyllol sydd yn gofrestredig gyda ni yn addas i ymarfer, mae modd i chi **adrodd am eich pryder wrthon ni**.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch **sut rydyn ni'n delio gyda phryderon addasrwydd i ymarfer** ar ein gwefan.

## Sut y deliwn gyda gofidiau

Rydym yn adolygu ac asesu pob gofid a ddaw i law yn ofalus. Mae'r adolygiad cychwynnol hwn yn ein helpu i benderfynu ar yr hyn ddylai ddigwydd nesaf. Gallai'r adolygiad arwain at achos yn cael ei gau ar yr adeg hon am nad yw o fewn ein pŵer i ddelio ag e. Pan yn briodol, byddwn yn sôn wrth bobl am reoleiddwyr eraill allai eu helpu.

Os byddwn yn gallu delio gydag achos, byddwn yn agor ymchwiliad. Bydd yr achos yn cael ei arwain gan arolygydd neu weithiwr achos arbenigol, neu - os yw'r achos yn un dyrys - y ddau. Yn sgil ymchwiliad, gallem benderfynu:

- peidio â gweithredu'n bellach, gan ein bod yn fodlon nad oes achos i'w ateb
- cyflwyno llythyr gyda chyfarwyddyd
- argymell bod pwyllgor ymchwilio yn ystyried y dystiolaeth

Mae llawer o achosion yn cael eu cau ar yr adeg hon, yn aml gyda chyfarwyddyd yn dweud wrth y gweithiwr fferyllol dan sylw bod yn rhaid iddo ddysgu o'r pryderon a godwyd. Rydym yn cadw cofnod o'r llythyr hwn. Dim ond yr achosion mwyaf difrifol sy'n cael eu cyfeirio at naill ai'r pwyllgor ymchwilio neu'r pwyllgor addasrwydd ymarfer.

Gall y pwyllgor ymchwilio (PY), sy'n cwrdd yn breifat, benderfynu:

- peidio â gweithredu
- cytuno ar 'addewidion' gyda'r aelod cofrestredig (addewidion gan aelodau yw'r rhain ynghylch pethau y byddan nhw'n eu gwneud neu'n peidio â'u gwneud yn y dyfodol. Gallent gynnwys cyfyngiadau ar ymarfer neu ymddygiad, neu ymrwymiad i ailhyfforddi neu gael eu goruchwylio)
- cyflwyno 'llythyr cyngor', neu
- gyfeirio'r achos at wrandawiad gan y pwyllgor addasrwydd i ymarfer

Panel yw'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer (PAY) sy'n gweithredu'n annibynnol ar y CFfC, ac sydd fel arfer yn cynnwys tri aelod.

Mae'r PAY, sydd fel arfer yn cwrdd yn gyhoeddus, yn penderfynu a yw gweithiwr fferyllol proffesiynol yn addas i ymarfer ai peidio.


Os yw'n penderfynu nad yw aelod yn addas i ymarfer, gall:

- roi rhybudd iddo neu iddi
- gosod cyfyngiadau sy'n cyfyngu ar y ffordd mae'n gallu ymarfer
- dileu neu wahardd yr aelod dros dro o'r gofrestr

Os ydym yn derbyn gofid lle mae ymddygiad neu ymarfer aelod yn risg barhaus a difrifol i ddiogelwch cleifion, neu os oes gan aelod gyflwr meddygol sy'n golygu ei fod yn risg iddo'i hun neu'r cyhoedd, gallwn wneud cais i'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer am 'orchymyn dros dro'. Mae gorchmynion dros dro yn galluogi gwahardd aelodaeth dros dro, neu osod amodau ar aelodaeth, tra bo ymchwiliad yn mynd rhagddo.

Gellir gosod sancsiynau gan bwyllgor addasrwydd i ymarfer, a gall hyn olygu bod aelod yn cael ei ddileu dros dro, neu'n barhaol, o'r gofrestr. Nid mater o gosbi ymddygiad yw'r sancsiynau. Yn hytrach, gweithredoedd i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd ydynt – naill ai sicrhau diogelwch y cyhoedd, cynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth, neu gynnal safonau ymddygiad priodol.

# Canlyniadau achosion a gaewyd yn 2018/19




*Mae'r adran 'Dim gweithredu pellach' yn cynnwys achosion a gafodd eu hystyried ar bob cam o'r broses AY, heblaw am frysbennu.*

# Delio gyda phryderon yn 2018/19

## Y nifer o bryderon a dderbyniwyd

Cynyddodd y nifer o bryderon a fynegwyd wrthym eleni. Yn 2018/19 derbyniom 2674 o bryderon, 345 mwy nag yn 2017/18. Mae'n anodd rhoi rhesymau dros y cynnydd gan fod nifer o resymau posibl. Yn  2019/20 byddwn yn newid y categorïau achos a ddefnyddiwn, er mwyn deall yn well beth yw'r cyswllt rhwng gwahanol fathau o bryderon a chynnydd mewn nifer.

## Pwy fynegodd bryderon?

Bu newid bach yn ffynonellau'r pryderon. Parhaodd aelodau o'r cyhoedd i fynegi dros hanner y pryderon. Ond fel cyfran o bob pryder, cyfrannodd y cyhoedd ganran ychydig yn is o'i gymharu â'r llynedd (54% o'r gymharu â 57%).

Mae hyn oherwydd ein bod wedi derbyn mwy o bryderon eleni gan:

- gyflogwyr
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a'n
- harolygwyr neu aelodau eraill o staff y CFfC

## Canlyniadau pryderon

Bu newid amlwg yng nghanlyniadau achosion eleni, o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, yn dibynnu ar ba gam o'r broses mae achos yn cael ei gau.

## Canlyniadau brysbennu

Cyflwynwyd newidiadau gennym eleni i'r ffordd rydyn ni'n goruchwylio'r camau cynharaf o ystyried pryderon, ac adrodd arnyn nhw. Y newid cyntaf oedd cyflwyno mwy o oruchwyliaeth gan uwch staff i'r broses yn ystod chwarter olaf 2018/19. Mae hyn wedi rhoi sicrwydd ychwanegol ein bod yn bwrw ymlaen â phryderon, neu'n eu cau, yn y ffordd fwyaf priodol.

Yr ail newid oedd gwella'r ffordd rydym yn adrodd am ganlyniadau adeg brysbennu er mwyn dangos yn gliriach pa mor aml yr ydym yn penderfynu:

- cau achos heb weithredu ymhellach
- cau achos gyda chyfarwyddyd ar gyfer y gweithiwr fferyllol proffesiynol, neu
- gyfeirio at sefydliadau delio â phryderon mwy addas

Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn gwneud cymharu'n uniongyrchol â'r flwyddyn flaenorol yn fwy anodd. Mae'n bosibl eu bod yn egluro pam y cafodd mwy o achosion eu cau adeg brysbennu. At ei gilydd, caewyd 1,027 o achosion ar y cwm hwn yn 2018/19 (39% o bob pryder a fynegwyd) o'i gymharu â 791 yn 2017/18 (34% o bob pryder a fynegwyd).

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwerthuso effaith ychwanegu goruchwyliaeth uwch at y broses brysbennu a byddwn yn adrodd ar hyn yn 2019/20.

## Canlyniadau ymchwiliadau

Ychydig cyn dechrau'r llynedd, cyflwynom newid i'r ffordd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau yn ystod ein hymchwiliadau drwy gyflwyno meini prawf trothwy newydd. Cafodd y rhain eu datblygu ar sail mewnbwn gan gleifion-gynrychiolwyr a grwpiau diddordeb arbennig. Y rhain yw'r meini prawf a ddefnyddiwn i benderfynu a ydym am cyfeirio achos at y pwyllgor ymchwilio.

Mae'n ymddangos bod y meini prawf diwygiedig wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu cau gyda chyfarwyddyd gan y tîm ymchwilio. Yn 2018/19 caeom 736 o achosion gyda chyfarwyddyd yn dilyn ymchwiliad (45% o bob achos a gaewyd ar ôl ymchwiliad). Mae hyn yn cymharu gyda 400 o achosion yn 2017/18 (26% o bob achos a gaewyd ar ôl ymchwiliad). Mae hyn yn gynnydd o 19% mewn achosion a gaewyd heb gael eu cyfeirio at bwyllgor.

Adolygom y ffordd yr oedd y newidiadau yn effeithio ar ganlyniadau yn fuan ar ôl eu cyflwyno. Nawr bod gennym gwerth blwyddyn o ddata i'w ddadansoddi, byddwn yn cynnal gwerthusiad pellach ar effaith ein meini prawf diwygiedig ar ganlyniadau achosion.

## Canlyniadau'r pwyllgor ymchwilio a'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer

Bu gostyngiadau yng nghanlyniadau dileu, dileu dros dro a rhybudd ar gamau pwyllgorau ymchwilio a phwyllgorau addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, o'u cymharu â chyfanswm y nifer o bryderon, nid yw'r gostyngiadau mor arwyddocaol ag y maen nhw'n ymddangos ar yr wyneb. Er enghraifft, caeom 13 o achosion drwy ddileu o'r gofrestr yn barhaol yn 2018/19. Mae hyn yn hanner y nifer o achosion a gaewyd gyda'r un canlyniadau yn 2017/18 (26 achos).

## Symud achosion yn eu blaen

Rydym wedi cynnal ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf o ran symud achosion yn eu blaen, gyda chynnydd bychan yn unig yn nifer yr

achosion sy'n hŷn na 12 mis. Rydym wedi gwneud hyn er gwaethaf y cynnydd yn y nifer o bryderon, a threulio mwy o amser yn ystyried achosion adeg brysbennu drwy uwch oruchwyliaeth ychwanegol. Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, roedd 79% o'n hachosion agored wedi bod ar agor am lai na 12 mis, o'i gymharu ag 81% yr un adeg y llynedd. Rydym yn parhau i fwrw'r achosion hyn yn eu blaen pan fo'n bosibl, gyda mwy o fewnbwn gan reolwyr i'r achosion hŷn. Cyhoeddom ganllawiau newydd ar 'ymchwiliadau cyfochrog' er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu pob cam posibl i fwrw achosion y mae sefydliadau eraill yn ymchwilio iddynt hefyd yn eu blaen.

### Sut mae cael gwybod am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer?

Fel arfer cynhelir gwrandawiadau'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn gyhoeddus yn ein Canolfan Gwrandawiadau Fferyllol ac mae croeso i'r cyhoedd eu mynychu.

Cynhelir rhai gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn breifat, os oes materion yn ymwneud ag iechyd yr aelod, er enghraifft.

Mae gwybodaeth am **wrandawiadau sydd ar ddigwydd**, ac am **benderfyniadau mae'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer wedi eu gwneud** ar ein gwefan.

# Y gofynion adrodd sydd arnom

Mae'n ofynnol arnom dan Orchymyn Fferyllol 2010 i gyhoeddi adroddiadau ar rai eitemau yn rhan o'r broses o ddangos ein bod yn atebol i'r Senedd.

Rhaid i ni gyhoeddi adroddiadau a chyfrifon blynyddol a'u cyflwyno i Swyddfa'r Cyfrin Gyngor i'w cadw yn Senedd y DU a Senedd yr Alban.

Rhaid i ni gyhoeddi:

- adroddiad blynyddol ar y ffordd y gweithredwyd ein swyddogaethau, yn cynnwys disgrifiad o'r trefniadau sydd gennym i sicrhau arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- adroddiad ystadegol sy'n dangos effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiogelu'r cyhoedd rhag aelodau cofrestredig y mae eu haddasrwydd ymarfer wedi ei niweidio. Mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiad o'r trefniadau sydd ar waith a sylwadau'r cyngor ar yr adroddiad
- cyfrifon blynyddol, mewn dull a bennir gan y Cyfrin Gyngor
- adroddiad ein harchwilwyr allanol ar ein cyfrifon

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i gyflawni'r gofynion uchod.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyhoeddi 'penderfyniad cyfrifo' sy'n egluro'r hyn sy'n ofynnol wrth baratoi ein cyfrifon blynyddol. Mae'r penderfyniad hwnnw yn atodiad 1 ein datganiadau ariannol. Paratowyd ein cyfrifon mewn cydymffurfiaeth â'r penderfyniad hwnnw.

Fel corff a ariennir gan ffioedd aelodau cofrestredig ac sy'n annibynnol ar lywodraeth, nid yw canllawiau'r trysorlys ar reoli arian cyhoeddus yn berthnasol i ni. Ond rydyn ni am ddefnyddio arfer gorau o ran bod yn dryloyw ac wrth gyfathrebu â'r cyhoedd, sef ein rhanddeiliaid pennaf. Rydyn ni wedi ceisio cadw ein dulliau adrodd mor eglur â phosibl felly, heb amlhau geiriau.

Rydym wedi cynnwys datganiad llywodraethiant gan y prif weithredwr a chofrestrydd. Mae hwn yn ymwneud â'r systemau sydd yn eu lle i gefnogi strategaeth ac amcanion y cyngor tra hefyd yn diogelu asedau'r sefydliad.  Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys adolygiad y prif weithredwr ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

# Ein dull llywodraeth

Y cyngor yw corff llywodraethu'r CFfC ac fe'i penodir gan y Cyfrin Gyngor. Hwn sy'n gosod cyfeiriad strategol a nodau ac amcanion y sefydliad, yn unol â'i amcanion statudol.

Mae'n monitro perfformiad y sefydliad, a pherfformiad yr uwch grŵp arwain. Mae hefyd yn diogelu asedau'r sefydliad ac yn sicrhau bod ei faterion ariannol yn cael eu gweithredu'n gywir.

Mae gan gyngor y CFfC 14 o aelodau: saith aelod lleyg a saith o aelodau cofrestredig. Mae o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio ymhob un o wledydd Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi ailbenodi Nigel Clarke yn gadeirydd am bedair blynedd o 1 Ebrill 2018 tan 12 Mawrth 2022. Mae Nigel wedi bod yn gadeirydd ar y CFfC ers Mawrth 2014 a chafodd ei ailbenodi gan y Cyfrin Gyngor yn dilyn gwaith craffu ar y broses apwyntio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Daeth tymor pump o aelodau'r cyngor i ben ar 31 March 2019 ac mae'r CFfC yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed gan yr aelodau hynny o'r cyngor: Berwyn Owen, David Prince, Mary Elford, Mohammed Hussain a Samantha Quaye.

Llenwyd y swyddi gwag hyn drwy broses ddethol wydn ac mae'r Cyfrin Gyngor wedi cadarnhau'r penodiadau newydd. Mae'n bleser gennym groesawu, o 1 Ebrill 2019, Aamer Safdar, Ann Jacklin, Neil Buckley, Penny Hopkins a Rima Makarem.

Mae tri o aelodau presennol y Cyngor, Arun Midha, Joanne Kember a Mark Hammond, wedi eu hailbenodi i ail dymor.

Mae'r cyngor wedi cytuno ar strwythur tâl a threuliau yn unol â safonau bywyd cyhoeddus Pwyllgor Nolan. Mae'n osgoi nodweddion a fyddai'n tanseilio llywodraethiant da.

**Datblygu'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i werthuso perfformiad ei aelodau, a'i berfformiad ei hun fel corff llywodraethu, yn flynyddol. Mae aelodau'r Cyngor yn cael eu gwerthuso gan gadeirydd y Cyngor bob haf. Mae'r cadeirydd hefyd yn derbyn adborth gan ymgynghorydd allanol yn dilyn gwerthusiad '360 gradd'. Mae'r Cyngor yn ystyried ei berfformiad ei hun fel corff llywodraethu bob blwyddyn.

## Tâl a phresenoldeb aelodau'r cyngor Ebrill 2018 tan Fawrth 2019

Dim ond presenoldeb mewn cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd y mae'r tabl hwn yn ei gofnodi. Mae aelodau'r cyngor yn mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd eraill. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, gweithio mewn grwpiau sicrwydd a chynghori a mynychu digwyddiadau ymglymu ledled Prydain, yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid.

| Enw | Aelod cofrestredig neu leyg | Cyflog | Cyfarfodydd Cyngor a fynychwyd[2] | Gweithdai Cyngor a fynychwyd | Aelod cofrestredig neu leyg |
|---|---|---|---|---|---|
| Nigel Clarke | Lleyg | 56,000 | 10 o 10 | 10 o 10 | PwyllTâl * 3 o 3 |
| Alan Kershaw | Lleyg | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | PwyllTâl 2 o 3 |
| Arun Midha | Lleyg | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | Ddim yn berthnasol |
| Berwyn Owen | Fferyllydd | 15,000 | 9 o 10 | 9 o 10 | PwyllTâl 3 o 3 |
| David Prince | Lleyg | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | GSChEE ** 3 o 4 |
| Digby Emson | Fferyllydd | 15,000 | 10 o 10 | 10 o 10 | PAR*** a GSChEE 4 o 4 & 4 o 4 |
| Elizabeth Mailey | Fferyllydd | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PwyllTâl 3 o 3 |
| Evelyn McPhail | Fferyllydd | 12,500 | 8 o 10 | 8 o 10 | Ddim yn berthnasol |
| Jayne Salt | Lleyg | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | PAR 3 o 4 |
| Joanne Kember | Fferyllydd | 12,500 | 8 o 10 | 8 o 10 | Ddim yn berthnasol |
| Mark Hammond | Lleyg | 16,000 | 10 o 10 | 10 o 10 | PAR a GSChEE 4 o 4 & 4 o 4 |
| Mary Elford | Lleyg | 12,500 | 8 o 10 | 8 o 10 | GSChEE 3 o 4 |
| Mohammed Hussain | Fferyllydd | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PAR 4 o 4 |
| Samantha Quaye | Technegydd fferyllol | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | GSChEE 2 o 4 |

## Nodiadau ar dabl tâl a phresenoldeb aelodau'r Cyngor

* Pwyllgor Tâl

** Grŵp Sicrwydd a Chyngor ar Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd

*** Pwyllgor Archwilio a Risg

1. Nodir tâl aelodau'r Cyngor fel ffigur gros.
2. Mae'r ffigurau mynychu'n cynnwys cyfarfodydd ffurfiol a gweithdai anffurfiol y Cyngor, a phresenoldeb mewn pwyllgorau. Rhaid i bob aelod o'r Cyngor fynychu digwyddiadau eraill, megis diwrnodau strategaeth, cyfarfodydd rhanddeiliaid a grwpiau gorchwyl a pharatoi yn ôl yr angen. Nid ydynt yn derbyn tâl ychwanegol am hyn.
3. Cadeirydd y Cyngor
4. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Tâl
5. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Risg
6. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Grŵp Sicrwydd a Chynghori ar Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd a £1,000 am gadeirio'r grŵp yn 2017/18 a dalwyd yn 2018/19 .

## Treuliau aelodau'r Cyngor
## Ebrill 2017 tan Fawrth 2018

| Aelod Cyngor | Teithio | Llety | Cynhaliaeth | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|
| Nigel Clarke | 1,552.81 | 470.60 | 6.45 | 2,029.86 |
| Alan Kershaw | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Arun Midha | 2,056.30 | 1,650.00 | 272.09 | 3,978.39 |
| Berwyn Owen | 2,346.17 | 2,366.00 | 463.65 | 5,175.82 |
| David Prince | 639.95 | 0.00 | 0.00 | 639.95 |
| Digby Emson | 2,838.00 | 0.00 | 0.00 | 2,838.00 |
| Elizabeth Mailey | 905.20 | 142.50 | 0.00 | 1,047.70 |
| Evelyn McPhail | 3,627.99 | 326.00 | 0.00 | 3,953.99 |
| Jayne Salt | 964.75 | 2,043.00 | 6.29 | 3,014.04 |
| Joanne Kember | 962.50 | 2,369.14 | 145.81 | 3,477.45 |
| Mark Hammond | 1,514.70 | 142.50 | 0.00 | 1,657.20 |
| Mary Elford | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Mohammed Hussain | 2,021.80 | 773.61 | 30.00 | 2,825.41 |
| Samantha Quaye | 135.14 | 0.00 | 0.00 | 135.14 |

# Pwyllgorau'r CFfC

## Pwyllgorau statudol

Dan Orchymyn Fferyllol 2010, mae tri phwyllgor: ymchwilio, addasrwydd ymarfer ac apeliadau.

### Pwyllgor Ymchwilio

Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried materion yn ymwneud ag addasrwydd ymarfer aelod cofrestredig neu addasrwydd person i gynnal busnes fferyllol cymunedol. Mae'r pwyllgor yn penderfynu a ddylid cyfeirio achos at y pwyllgor addasrwydd ymarfer am wrandawiad llawn.

### Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

Mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu a yw addasrwydd aelod i ymarfer wedi ei niweidio gan ffactorau'n ymwneud ag ymddygiad, perfformiad proffesiynol neu iechyd. Mae hefyd yn penderfynu a ddylid gwahardd person rhag rhedeg busnes fferyllol cymunedol.

### Pwyllgor Apeliadau

Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried apeliadau mewn perthynas â materion cofrestru ac addysg.

## Pwyllgorau anstatudol

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na ddylid cael gormod o bwyllgorau anstatudol ychwanegol, er mwyn lleihau biwrocratiaeth a sicrhau eglurder ynghylch dyletswyddau. Mae gan y CFfC dri phwyllgor anstatudol: archwilio a risg, tâl ac apwyntiadau. Mae aelodaeth pwyllgorau anstatudol y Cyngor yn cael ei newid bob deuddeng mis drwy broses gytunedig.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r pwyllgor archwilio a risg yn cefnogi'r cyngor drwy adolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CFfC. Mae hefyd yn adolygu trefniadau rheoli risg.  Mae'n rhoi sicrwydd i'r cyngor bod risgiau yn cael eu darganfod a'u rheoli. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor i'r cyngor ar y sicrwydd a ddarperir o ran rheolaeth fewnol a risgiau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar o aelodau'r cyngor, yn cynnwys cadeirydd y pwyllgor, Digby Emson. Dechreuodd cyfnod Digby yn y swydd ar 1 Ebrill 2017 a pharhaodd yn gadeirydd drwy gydol 2018/19. Ar 7 Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor benodiad Digby yn gadeirydd ar gyfer 2019/20, yn weithredol o 1 Ebrill 2019.

Mae gan y pwyllgor aelod annibynnol hefyd, sef Helen Dearden. Dechreuodd Helen ar y gwaith ar 1 Ebrill 2017 a pharhaodd yn aelod annibynnol drwy gydol 2018/19.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn ystod y flwyddyn: ym Mai, Gorffennaf a Hydref 2018, ac yn Ionawr 2019.

Mae'r pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar y risgiau i allu'r CFfC i gyflawni ei amcanion strategol. Mae'r pwyllgor wedi adolygu rheolaeth y CFfC dros risgiau ymhob cyfarfod ac mae ei adolygiadau wedi eu defnyddio'n rhan o waith craffu'r Cyngor ar adroddiad y prif weithredwr a chofrestrydd ar reoli risgiau.

Mae'r cynllun archwilio mewnol wedi ei seilio ar strategaeth fewnol dair blynedd wedi ei chytuno gyda'r archwilwyr mewnol Moore Stephens. Dan y strategaeth, mae adolygiad systematig, wedi ei flaenoriaethu, ar bolisïau, gweithdrefnau a gweithrediadau, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg uchel.

Gwnaed deg darn o waith gan ein harchwilwyr mewnol a chafodd y rhain eu hadolygu gan y pwyllgor. Roedd dau ohonynt yn gynghorol eu

natur, ac roedd un arall yn waith dilynol yn sgil argymelliadau blaenorol.

**Proses gwneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer: gwyrdd**

1. Gwybodaeth (strategaeth data) – Rhan 1: ddim yn berthnasol
2. Gwybodaeth (strategaeth data) – Rhan 2: gwyrdd-melyn (cynghorol)
3. Rheolaeth ariannol allweddol: gwyrdd-melyn
4. Rheoli ansawdd cyhoeddi adroddiadau: gwyrdd-melyn
5. Datblygu strategaeth a gweledigaeth 2030: gwyrdd-melyn (cynghorol)
6. Iechyd a diogelwch: melyn
7. Integriti'r gofrestr: melyn
8. Dilyn i fyny: gwyrdd-melyn
9. Project trawsffurfio digidol – adolygiad diogelwch: dd/b

## Apwyntio archwilwyr allanol

Cafodd yr archwilwyr allanol presennol Crowe, Clark and Whitehill eu penodi gan y Cyngor ar 12 Hydref 2017, yn dilyn argymhelliad gan banel tendro'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Egluro'r graddfeydd**

**Gwyrdd:** Mae fframwaith rheolaeth cadarn yn ei le i gyflawni amcanion, ac mae'r dulliau rheoli risgiau a archwiliwyd yn cael eu rhoi ar waith gyda chysondeb. Gallai ambell wendid fodoli ond rhai cymharol fychain yw'r rhain neu maent yn ymwneud â chyflawni safonau uwch neu arfer gorau.

**Gwyrdd-melyn:** Yn gyffredinol, mae fframwaith rheoli da yn bodoli. Mae rhai mannau gwan bychain wedi eu darganfod, fodd bynnag, yn y fframwaith rheoli neu feysydd lle mae diffyg cydymffurfiaeth a gallai hyn arwain at risg i gyflawni amcanion y system neu'r busnes.

**Melyn:** Mae gwendidau wedi eu canfod yn y fframwaith rheoli neu mae diffyg cydymffurfiaeth a allai arwain at risg i gyflawni amcanion y system. Mae angen rhywfaint o waith adfer.

**Melyn-coch:** Mae gwendidau sylweddol wedi eu darganfod yn y fframwaith rheoli neu mae diffyg cydymffurfiaeth gyda'r rheolau, sy'n golygu risg i'r gwaith o gyflawni amcanion y system. Dylid gweithredu ar fyrder.

**Coch:** Mae gwendidau sylfaenol wedi eu darganfod yn y fframwaith rheoli neu mae diffyg cydymffurfiaeth gyda rheolaeth. Mae hyn yn gadael y system yn agored i gamdriniaeth neu wallau. Mae angen rhoi blaenoriaeth i weithredu adferol.

**Cynghorol:** nid oes gan yr adroddiadau hyn raddfa sicrwydd ffurfiol gan eu bod yn adolygu meysydd gwaith sy'n dal i fynd yn eu blaen ac nid ydynt yn gyflawn.

## Pwyllgor Tâl

Mae gan y pwyllgor tâl bŵer, wedi ei ddirprwyo o gyngor llywodraethu'r CFfC, i gymeradwyo neu wrthod fframwaith tâl staff y CFfC a phecynnau tâl y prif weithredwr a'r cyfarwyddwyr. Mae'r pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar y polisi tâl ar gyfer aelodau'r cyngor a pholisi treuliau aelodau'r Cyngor a staff. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am osod polisi tâl a threuliau gweithwyr cyswllt.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar o aelodau'r cyngor, yn cynnwys cadeirydd y pwyllgor Berwyn Owen, a benodwyd yn Ebrill 2017, Alan Kershaw, a benodwyd yn Ebrill 2017 hefyd, Nigel Clarke, Cadeirydd y Cyngor ac Elizabeth Mailey, a ymunodd â'r Cyngor yn Ebrill 2017. Mae gan y pwyllgor hefyd ddau aelod annibynnol, Rob Goward a Janet Rubin.

Rhoddodd Berwyn y gorau i weithredu'n gadeirydd ar y pwyllgor ar 31 Mawrth 2019, wedi cyflawni dau dymor yn aelod o'r cyngor. Rydym yn ddiolchgar i Berwyn am ei ymroddiad a'i gyfraniad at waith y pwyllgor dros y blynyddoedd.

Ar 7 Mawrth 2019, penododd y Cyngor Elizabeth Mailey yn gadeirydd newydd ar y pwyllgor ar gyfer 2019/20, yn cychwyn ar 1 Ebrill 2019.

Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn: Ebrill a Medi 2018, a Chwefror 2019. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor dâl y prif weithredwr a chofrestrydd, cyfarwyddwyr a chyflogeion, yn ogystal â thal aelodau'r cyngor. Yn sgil trafodaeth ym Medi 2018, argymhellodd y pwyllgor na ddylid cynyddu graddfeydd tâl y cadeirydd ac aelodau'r Cyngor. Argymhellodd hefyd y dylai'r taliadau yn ôl disgresiwn ar gyfer aelodau'r cyngor sy'n cadeirio pwyllgorau anstatudol aros yn ddigyfnewid. Cytunodd y Cyngor i'r argymhellion hyn ym mis Tachwedd 2018.

Roedd gwaith arall y pwyllgor yn y maes hwn yn canolbwyntio ar:

- adolygu tâl a chydnabyddiaeth staff, a
- monitro'r gwaith parhaus ar ein diwylliant ac arolygon staff.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd wedi bod yn flaenllaw yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Bu ffocws clir ar sicrhau bod polisïau o fewn cylch gwaith y pwyllgor yn adlewyrchu ac yn hybu ein hymrwymiad at CAC, a bod hyn ar waith yn unol â'r bwriad – er enghraifft, o ran craffu ar y bwlch cyflogau rhwng y rhywiau, ac iechyd a lles staff.

## Grŵp Sicrwydd a Chynghori ar Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd (GSChEE)

Sefydlodd y prif weithredwr a chadeirydd y Cyngor y grŵp hwn i roi sicrwydd i'r prif weithredwr bod rhaglen effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CFfC yn mynd yn ei blaen ac yn cyflawni'r deilliannau a ddymunwyd.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pump aelod o'r cyngor, yn cynnwys cadeirydd y pwyllgor, Mark Hammond, ac mae'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Parhaodd Mark i weithredu fel cadeirydd drwy gydol 2018/19. Ar 7 Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor benodiad Mark

yn gadeirydd ar gyfer 2019/20, yn cychwyn ar 1 Ebrill 2019.

Yn eu cyfarfod ar 11 Ebrill 2019, cytunodd y Cyngor y dylid ailenwi’r grŵp yn bwyllgor cyllid a chynllunio, a chafodd y cylch gorchwyl newydd hefyd ei gytuno.

### Pwyllgor Penodi

Y pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am ddewis ac apwyntio aelodau'r pwyllgorau statudol. Mae hefyd yn goruchwylio trefniadau eu hyfforddiant ac yn adolygu eu perfformiad. Mae'r pwyllgor hwn yn atebol i'r cyngor ond nid oes aelodau o'r cyngor ymhlith ei aelodau. Fe'i cadeirir gan gadeirydd annibynnol, Elizabeth Davies. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod swyddogaethau'r cyngor ar wahân i swyddogaethau'r pwyllgorau statudol.

## Prif weithredwr a chofrestrydd a chyfarwyddwyr

Pennaeth staff y CFfC yw’r prif weithredwr a chofrestrydd. Yn adroddiad blynyddol y llynedd, adroddom fod strwythur arwain newydd wedi ei gyflwyno a bod pobl newydd wedi ymuno â’r tîm arwain. Gyda phob uwch arweinydd a chyfarwyddwr ynghlwm wrth wahanol agweddau ar strategaeth, gweithrediadau polisi a datblygu rheoleiddio, nod y newidiadau oedd cryfhau gweithio integredig a gwella ein heffeithiolrwydd wrth reoleiddio.

Mae’r strwythur sefydliadol wedi ei seilio ar bedair cyfarwyddiaeth:

- Addysg a Safonau: Mark Voce, cyfarwyddwr
- Addasrwydd i Ymarfer: Carole Auchterlonie, cyfarwyddwr
- Pobl: Francesca Okosi, cyfarwyddwr
- Mewnwelediad, Gwybodaeth ac Arolygu: Claire Bryce-Smith, cyfarwyddwr

Cafodd Mark Voce ei benodi’n gyfarwyddwr ar y Gyfarwyddiaeth Addysg a Safonau yn Ionawr 2019, wedi gweithredu ar sail dros dro ers 2018.

Ymunodd Carole Auchterlonie â ni yn Ionawr 2019 fel Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer. Rydym yn ddiolchgar i Matthew Hayday am ei ymroddiad a’i gyfraniad yn ystod ei gyfnod yn Gyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer dros dro o 1 Rhagfyr 2017.

## Uwch grŵp arwain

Mae’r uwch grŵp arwain wedi ei sefydlu gan y prif weithredwr a chofrestrydd i gyflawni nifer o gyfrifoldebau llywodraethiant gweithredol allweddol. Mae’r grŵp yn cynnwys y prif weithredwr a chofrestrydd, y cyfarwyddwyr, a’r pennaeth staff, Laura McClintock.

Mae rhagor o wybodaeth am ein strwythur ar ein gwefan.

## Gofynion cyfrifo

Mae’r CFfC yn gorff statudol annibynnol, yn atebol i’r Senedd a Senedd yr Alban. Mae'n ofynnol ar i'r CFfC, dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i ni baratoi cyfrifon am bob blwyddyn yn unol ag egwyddorion cyfrifo'r DU a'r anghenion datgelu a nodir yn y Safonau Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP). Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi mewn ffordd sy'n rhoi gwir adlewyrchiad o gyflwr y sefydliad ac o'i wariant a'i incwm, enillion a cholledion a llif arian y flwyddyn ariannol.

## Nifer a mathau o gwynion

Derbyniom 80 o gwynion am ein gwasanaethau yn 2018/19 (106 yn 2017/18). Roedd rhai cwynion yn ymwneud â mwy nag un mater felly rydym wedi eu gosod yn y tabl yn ôl prif thema’r gŵyn. Mae gwybodaeth fanylach am gwynion yn cael ei hadrodd i’r Cyngor drwy’r prosesau monitro perfformiad rheolaidd.

| Mater | Cyfanswm 2018/19 |
|---|---|
| Proses CFfC | 31 |
| Canlyniad gofid/penderfyniad gan CFfC | 10 |
| Gwybodaeth a data | 2 |
| myGPhC | 11 |
| Ymddygiad staff | 3 |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 0 |
| Safonau ac asesu | 4 |
| Ffioedd | 7 |
| Arall | 12 |
| **Cyfanswm** | **80** |

## Cyflawni gofynion deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn sicrhau y gall unrhyw un weld cofnodion y CFfC. Gallwch weld sut i wneud hyn ar ein gwefan.

Ein cynllun cyhoeddi yw'r 'cynllun cyhoeddi model', a adolygwyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth (CG) yn 2014 ar gyfer pob un o'r rheoleiddwyr iechyd. Mae hyn yn ein hymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd.

Fel rheolwr data cofrestredig dan Ddeddf Diogelu Data 1998, rydym ni'n casglu, storio a defnyddio data personol. Defnyddir hyn i ddiweddaru'r gofrestr, er enghraifft, a phrosesu cwynion, casglu ystadegau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CFfC i randdeiliaid. Rydym yn rhannu gwybodaeth bersonol gyda sefydliadau eraill er budd y cyhoedd ac i gefnogi ein rôl a chyfrifoldebau statudol. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y defnyddiwn ac y diogelwn ddata personol a'r sefydliadau y gweithiwn gyda nhw ar ein gwefan.

Nid adroddwyd unrhyw faterion yn ymwneud â data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

Diweddarom ein polisïau a'n harferion gwaith i ateb gofynion deddfwriaeth diogelu data newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2018 (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE 2016/670) a Deddf Diogelu Data 2018). Ymgynghorom ar ein polisi cyhoeddi a datgelu, a'i ddiweddaru. Cafodd ein cyflogeion, ein gweithwyr cyswllt ac aelodau ein cyngor hyfforddiant ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd.

Yn 2018/19, derbyniom 225 o geisiadau am wybodaeth dan y Deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (derbyniom 312 yn 2017/18). Er bod y rhif yn is eleni, maen nhw wedi cynnwys rhai mwy cymhleth a chafwyd mwy o geisiadau gwrthrych y wybodaeth oedd yn cynnwys adolygu llawer iawn o wybodaeth.

| Math o gais am wybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|
| Rhydd Gwyb | 151 |
| DDD* | 36 |
| Cais gwrthrych am wybodaeth** | 38 |

* Achosion lle mae sefydliad trydydd parti yn gwneud cais am ddata personol unigolyn yw DDD, a ninnau'n ystyried datgelu dan un o'r eithriadau yn y Ddeddf Diogelu Data.


**Ystyr cais gwrthrych am wybodaeth yw pan fo rhywun yn gofyn i ni ddatgelu'r wybodaeth sydd gennym amdano neu amdani. Ein nod yw bod mor dryloyw â phosibl yn yr achosion hyn, ond efallai na fydd modd i ni ddatgelu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani. Er enghraifft, efallai y byddwn yn 'tynnu yn ôl' (golygu neu ddileu) wybodaeth sy'n cynnwys data personol person neu bobl eraill.

Mewn 14 o achosion, nid oedd gennym y wybodaeth y gwnaed cais amdani. Pan oedd y wybodaeth gennym, gwnaethom ei datgelu – naill ai'n llawn neu yn rhannol – yn 91% o'n hymatebion i geisiadau. Derbyniom naw cais i adolygu penderfyniad roedden ni wedi ei wneud

ynghylch datgelu, ac asesodd **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** dair cwyn ynghylch ein hymateb yn ystod y flwyddyn. Cadarnhaodd y Comisiynydd un gŵyn yn rhannol, a chafodd un o'r lleill mo'i chynnal. Cytunwyd ar un achos yn anffurfiol a chytunom i roi rhan o'r data y gwnaed cais amdano, lle nad oedd yn datgelu pwy oedd yr aelodau dan sylw.

Derbyniom hefyd saith cais dan hawliau eraill sy'n rhan o'r ddeddfwriaeth diogelu data newydd.

## Cyfraddau datgelu 2018/19



## Datgeliadau chwythu'r chwiban i ni fel 'person rhagnodedig'

Creodd y Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i 'berson rhagnodedig' i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ddatgeliadau gwarchodedig ('chwythu'r chwiban') a wnaed iddynt gan weithwyr. Nod y ddyletswydd hon yw cynyddu tryloywder yn y ffordd yr eir i'r afael â'r datganiadau hyn a chynyddu hyder pobl sy'n mynegi pryderon y bydd eu datgeliadau yn cael eu trin o ddifri.

Fel person rhagnodedig mae'n rhaid i ni adrodd mewn ysgrifen bob blwyddyn ar ddatgeliadau gwarchodedig a wneir i ni. Hwn yw'r adroddiad ar gyfer y cyfnod yn dechrau 1 Ebrill 2018 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

Ein rôl ni fel person rhagnodedig yw darparu lle i weithwyr wneud datganiadau i gorff annibynnol pan:

- nad yw'r gweithiwr yn teimlo y gall ddatgelu'n uniongyrchol i'w gyflogwr, ac
- y gallem fod mewn sefyllfa i weithredu camau rheoleiddiol ynghylch y datgeliad

Pan nad oes modd i ni weithredu'n rheoleiddiol gan fod y datgeliad y tu allan i gwmpas ein swyddogaethau ni, byddem yn cyfeirio'r datgeliad at sefydliad addas.

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 derbyniom 16 datgeliad gwybodaeth cymwys.

O'r datgeliadau a wnaed, caewyd pen y mwdwl ar wyth ohonynt, ac mae wyth yn parhau i fod yn destun adolygiad.

Roedd ein camau gweithredu'n cynnwys:

- ymchwiliad llawn drwy'r prosesau addasrwydd i ymarfer sydd wedi eu sefydlu, a
- gweithredu dilynol drwy ein rhwydwaith arolygu

Gall y cyntaf arwain at unrhyw un neu rai o'r canlyniadau sydd ar gael drwy'r broses addasrwydd i ymarfer. Gall yr ail gynnwys cyflwyno cyfarwyddyd, ymweliad dilynol neu arolygiad heb rybudd.

Ymchwiliwyd i dri achos a'u cau heb weithredu pellach. Cafodd un achos ei gyfeirio at sefydliad arall. Ymchwiliwyd i'r pump arall, a chaewyd nhw gyda chyngor gan gydweithwyr addasrwydd i ymarfer, arolygu neu addysg.

Ni chafodd yr un o'r datgeliadau effaith ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau a chyflawni ein hamcanion.

# Datganiad llywodraethiant 2018/19

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel prif weithredwr a chofrestrydd, rwyf yn atebol i'r cyngor am gynnal system wydn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi strategaeth ac amcanion y cyngor, tra'n diogelu asedau'r CFfC. Rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod busnes y CFfC yn cael ei wneud yn unol â'r gyfraith a safonau priodol.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb hwn, rwyf yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu materion y CFfC a sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau rheoli risg.

## Diben y fframwaith llywodraethu

Diben llywodraethu yw sicrhau bod y CFfC yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, mewn ffordd amserol, gynhwysol, agored, onest ac atebol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys:

- y systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n sail i'r ffordd y mae'r CFfC yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli, a
- gweithgareddau'r CFfC, y mae'n ymwneud ag aelodau cofrestredig, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill drwyddynt

Mae'r fframwaith yn galluogi'r CFfC i fonitro a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni ac ystyried a ydy'r amcanion wedi eu cyflawni mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan fawr o'r fframwaith ac mae wedi ei chreu i reoli risgiau i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg i fethu â chyflawni polisïau, amcanion a nodau. Gall ddarparu sicrwydd rhesymol (nid absoliwt) o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn broses barhaus sydd â'r nod o nodi a blaenoriaethu'r risgiau hyn, gwerthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau hynny pe baent yn dod yn wir, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac mewn ffordd economaidd.

Heblaw am y newidiadau i'r Uwch Grŵp Arwain a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei le yn y CFfC am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiad cyfrifon.

## Y fframwaith llywodraethu

Mae ein gweledigaeth ar gyfer rheoleiddio fferyllol wedi ei ddisgrifio yng Nghynllun Strategol 2017-20 y CFfC. Mae ein prif raglenni gwaith, a fydd yn ein helpu i wireddu ein hamcanion strategol, wedi eu disgrifio yng Nghynllun Busnes 2017-20 y CFfC. Mae'r ddwy ddogfen ar wefan y CFfC.

Mae ein cynllun busnes yn rhoi ffocws clir i'n huwch arweinwyr a staff. Mae'n darparu fframwaith y gallwn ei ddefnyddio i fonitro'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni ein blaenoriaethau, er mwyn i ni allu asesu ein cynnydd a'n perfformiad yn gweithredu'r cynllun strategol. Yn eu tro, mae ein prif raglenni gwaith yn cael eu cefnogi gan gynlluniau tîm manylach, sydd hefyd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n gyson.

Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith llywodraethu, yn cynnwys strwythur y sefydliad a gwaith ein pwyllgorau yn adran Pwyllgorau'r CFfC yn yr adroddiad blynyddol hwn.

## Adolygu effeithiolrwydd

Fel prif weithredwr a chofrestrydd, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r CFfC, yn cynnwys y system rheolaeth fewnol. Cefnogir y gwaith o adolygu effeithiolrwydd gan:

- waith rheolwyr gweithredol y CFfC, sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu
- adroddiad blynyddol pennaeth yr archwiliad mewnol, a
- sylwadau gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill

Mae'r Cyngor wedi penodi Moore Stephens yn archwilwyr mewnol. Ar ddechrau 2019, unodd ein harchwilwyr mewnol gyda BDO, gyda'r cwmni newydd yn gweithredu dan frand BDO. Ni chafodd hyn effaith ymarferol nag unrhyw effaith sylweddol arall ar ein gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Fel yn y gorffennol, crëwyd cynllun archwilio blynyddol ar sail crebwyll proffesiynol a gwerthusiad risgiau, a thrwy gyfeirio at strategaeth archwilio mewnol dair blynedd 2017–20. Er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ystod digon eang o feysydd, mae digonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi ei asesu mewn perthynas â phrif feysydd ein darpariaeth, y systemau rheoli sy'n ein galluogi i'w cyflawni a'n prosesau craidd.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r prosesau archwilio mewnol i sicrhau bod ein system reolaeth fewnol yn addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, tynnom sylw at ein gwaith parhaus i wella ein sefydliad, ein gwasanaethau a'n prosesau. Nodom hefyd ein hymrwymiad i weithredu mewn ffordd fwy cydlynol ac i gyflwyno newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n datblygu ac yn gweithredu ein strategaeth.  Rydym wedi parhau â'r gwaith hwn gydol 2018/19, gan gynnwys datblygu ein gweledigaeth 10-mlynedd ar gyfer rheoleiddio fferyllol, a fydd yn creu'r fframwaith cyffredinol y bydd cynlluniau strategol a chynlluniau busnes y dyfodol yn gweithredu oddi mewn iddo. Rydym hefyd wedi gofyn i'n harchwilwyr gynnal aseiniad cynghorol i roi sicrwydd i ni y bydd ein gweledigaeth a'n gwaith strategol yn gweithio'n effeithiol. Y ffocws i hyn oedd ystyried a oes gweledigaeth glir yn dod i'r amlwg, un y mae'r Cyngor yn rhan ohono ac sydd yn ystyried cynlluniau'r presennol ac amcanion ariannol.

Rwyf wedi derbyn cyngor gan y pwyllgor archwilio a risg ar ymhlygiadau canlyniadau'r adolygiad ar effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant  a bod y trefniadau yn gyffredinol yn parhau i fod yn addas at eu diben o fewn ein fframwaith llywodraethiant.

Wrth wneud y datganiad hwn, rwyf wedi nodi barn yr archwilwyr mewnol bod gennym system llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sy'n ddigonol ac yn effeithiol i fynd i'r afael â'r risg na chyflawnir amcanion y rheolwyr yn llawn.

Mae'r meysydd rydyn ni eisoes wedi mynd i'r afael â nhw, a'r meysydd i fynd i'r afael â nhw'n benodol gyda chamau gweithredu newydd neu ychwanegol wedi eu hamlinellu isod.

## Materion llywodraethiant allweddol

**Mater: gwella gallu staff allweddol sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth a darpariaeth iechyd a diogelwch, a gwella cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros adrodd am ddigwyddiadau problemus**

**Camau a gynigir/camau lliniaru:** Rydym wedi sefydlu grŵp llywio iechyd a diogelwch, fydd â'r cyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i gryfhau trefniadau iechyd a diogelwch.

Yn ogystal, rydym yn derbyn cymorth ymgynghorwyr iechyd a diogelwch allanol i sicrhau bod camau gweithredu ac argymhellion yn cael eu gyrru yn eu blaen mewn ffordd briodol, gan gynnwys materion pwysig hyfforddiant a galluedd staff.

**Mater: gwella dyluniad prosesau rheoli adnabod materion drwy wiriadau gan reolwyr a gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn ein prosesau cofrestru**

**Camau a gynigir/camau lliniaru:** Mae prosesau rheoli ataliol yn rhagweithiol a'u nod yw atal camgymeriadau neu anghysonderau rhag digwydd. Nod prosesau rheoli adnabod materion problemus yw adnabod camgymeriadau ac anghysonderau sydd wedi digwydd. Canfu ein harchwilwyr mewnol bod y camau rheoli'n ymwneud â'r broses pen-wrth-ben yn rhai ataliol at ei gilydd, er eu bod yn gweithio'n dda yn ymarferol. Yr hyn sydd angen i'r CFfC ei wella yw dyluniad ei brosesau rheoli adnabod materion problemus, drwy ragor o wiriadau 'yn ystod proses' a gweithdrefnau sicrhau ansawdd.  At ei gilydd, a thrwy ein gwahanol brosesau sicrwydd ac archwilio, nid ydym wedi dod o hyd i bryderon sylweddol ynghylch integriti'r gofrestr, o ran cynnal data cywir, cyflawn a diweddar ynghylch aelodau a fferyllfeydd cofrestredig. Mae nifer o feysydd pwysig i'w gwella a byddwn yn ffocysu ar y rhain wrth fwrw ymlaen â'n gwaith, yn ymwneud yn benodol â'n prosesau sicrhau ansawdd, adolygu ein fframwaith rheoli a meysydd risg allweddol, a diweddaru cyfeirlyfrau a gweithdrefnau perthnasol.

## Crynodeb

Bwriadaf, dros y flwyddyn nesaf, fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rwyf yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r gwelliannau y dywedodd ein hadolygiad effeithiolrwydd bod angen eu cyflwyno, a byddaf yn monitro eu gweithrediad yn rhan o fy adolygiad blynyddol nesaf.

**Duncan Rudkin**
**Prif Weithredwr**
**13 Mehefin 2019**

# Datganiadau ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

## Adolygiad ar weithgareddau busnes

Yn ystod 2018/19 bwriwyd ymlaen â'r gwaith o wneud cynnydd ar ddatblygu'r amcanion allweddol y manylwyd arnynt yng nghynllun strategol 2017-20. Rydym yn parhau i sicrhau bod 1) rheoleiddio fferyllol yn effeithiol, 2) gan y tîm fferyllol y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ddarparu gofal, 3) gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Incwm

Yn 2018/19 cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £22.7m (2017/18: £22.5m).

Prif gynnwys ein hincwm yw:

| | 2018/19 | | 2017/18 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer aelodau | Incwm blyn. (£m) | Nifer aelodau | Incwm blyn. (£m) |
| Fferyllwyr | 56,288 | 14.7 | 55,258 | 14.5 |
| Technegwyr fferyllol | 23,387 | 2.9 | 23,367 | 2.9 |
| Fferyllfeydd cofrestredig | 14,314 | 3.7 | 14,348 | 3.8 |


Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys ffioedd adnewyddu, ffioedd cofrestru cychwynnol a ffioedd cais.

Mae incwm ffioedd adnewyddu fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig wedi eu nodi yn y cyfrifon dros gyfnod y flwyddyn gofrestru, gyda'r balans ar y fantolen wedi ei nodi fel incwm gohiriedig. Felly, nid yw'r incwm a gydnabyddir yn ystod y flwyddyn o ffioedd adnewyddu yn adlewyrchu'r arian a dderbyniwyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr incwm a dderbyniwyd o'r arholiad asesu cyn-gofrestru a'r flwyddyn gyn-gofrestru yn £1.1m (2017/18 £1.1m). Gwnaeth cyfanswm o 3,786 o fyfyrwyr sefyll yr arholiadau ym Mehefin a Medi (2017/18: 3,648).

Roedd incwm o'r holl grwpiau cofrestru'n gymharol gyson â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Gostyngodd y twf blynyddol mewn fferyllwyr cofrestredig o 2.4% yn 2017/18 i 1.2% yn 2018/19. Roedd cynnydd bach yn nifer y cofrestriadau cychwynnol eleni o'i gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei wrthbwyso gan gynnydd y nifer o aelodau a adawodd y gofrestr o'u gwirfodd. Mae'n debygol bod hyn yn ganlyniad i'r dull ailddilysu newydd a'r symudiad tuag at wasanaethau ar-lein.

## Gwariant gwirioneddol 2018/19




## Gwariant

Bu cynnydd o 4% mewn gwariant, i £23.8m (2017/18: £22.8m). Yn ogystal â'n swyddogaethau rheoleiddio, mae llawer o'n hadnoddau yn parhau i gael eu gwario ar gyflawni'r chwe phrif egwyddor y manylwyd arnynt yng nghynlluniau strategol 2017-20, ac mae cryn ffocws ar hynny.

Cynyddodd costau cyflogeion gan £0.8m (2017/18: £11.8m). Cafodd y sefydliad ei ailstrwythuro ddiwedd 2017/18 gyda nifer o swyddi gwag a swyddi newydd yn cael eu llenwi yn ystod y chwarter olaf. Mae 2018/19 yn adlewyrchu blwyddyn gyfan o gostau o ran y nifer uwch o staff. Mae cyfran o'r swyddi gwag wedi eu llenwi yn ystod y flwyddyn er cymorth i'r gwaith o ddatblygu a darparu gwell gwasanaethau.

Roedd costau eraill staff yn £3.2m (2017/18: £2.7m). Bu cynnydd o £0.2m mewn costau recriwtio, gyda nifer o swyddi uwch a thechnegol yn cael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Roedd costau staff dros dro £0.1m yn uwch yn 2018/19 gyda chontractwyr yn cael eu defnyddio i gyflenwi mewn swyddi gwag er mwyn parhau â'r cynnydd o ran gwireddu amcanion strategol. Roedd costau Pwyllgor a Gweithwyr Cysylltiol £0.2m yn uwch o'u cymharu â 2017/18 gyda mwy o ddigwyddiadau

achredu a hyfforddi yn cael eu cynnal yn 2018/19.

Bu gostyngiad o £0.2m mewn costau proffesiynol, i £2.1m, yn 2018/19, yn sgil gostyngiad mewn costau cyfreithiol. Roedd hyn oherwydd yn deliwyd â mwy o achosion cymhleth yn allanol yn 2017/18 tra oedd staff yn gweithio ar brojectau datblygu.

Cynyddodd dibrisiad ar asedau sefydlog gan £0.1m (2017/18: £0.7m). mae hyn oherwydd bod mwyafrif y projectau datblygu a gyfalafwyd yn 2017/18 nawr yn fyw.

Mae costau TG wedi lleihau gan £0.1m o'u cymharu â'r llynedd wrth i ni barhau i gynyddu effeithlonrwydd yn ein contractau gwasanaeth.

Mae rhagor o fanylion ynghylch gwariant yn Nodyn 3.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn

Awdurdodwyd diffyg cynlluniedig o £1.7m ar gyfer 2018/19 gan y Cyngor, i'w gyllido o gronfeydd cyfredol. Mae'r diffyg gwirioneddol yn £1.0m (2017/18: £0.1m o ddiffyg).

Roedd incwm gwirioneddol 2018/19 yn unol, at ei gilydd, â'r disgwyliadau o ran cyllid o bob grŵp cofrestru. Roedd y twf gwirioneddol yn nifer y fferyllwyr yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r gyllideb, gyda'r cynnydd yn nifer y rhai newydd a ymunodd yn cael ei wrthbwyso gan y nifer a adawodd.

Roedd gwariant y flwyddyn £0.7m yn llai na'r disgwyl o ran y gyllideb. Y prif ffactorau yn hyn o beth oedd costau cyflogeion, gyda'r swyddi gwag dros y flwyddyn yn creu arbediad o £0.5m, £0.2m yn llai o wario ar TG na'r disgwyl yn sgil arbedion effeithlonrwydd a'r dull y gweithredwyd rhai projectau datblygu.

## Datganiad ar gyfrifoldeb y Cyngor o ran paratoi'r datganiadau ariannol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi adroddiad a datganiadau ariannol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Dan Orchymyn Fferyllol 2010, mae'n ofynnol ar i aelodau’r Cyngor baratoi datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol. Mae'r Cyfrin Gyngor, dan y gyfraith honno, wedi cyfarwyddo'r CFfC i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifo'r DU a Dderbynnir yn Gyffredinol (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a deddfau perthnasol) yn cynnwys Safon Adrodd Cyllidol 102. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol os nad ydynt yn hyderus eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad a'r gweddill neu'r diffyg ariannol am y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i aelodau'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio gyda chysondeb
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gonest
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol y DU, a datgelu ac egluro unrhyw eithriadau yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail sefydliad ‘sy'n dal yn weithredol’ oni bai ei bod yn amhriodol ystyried y bydd y CFfC yn dal yn weithredol

Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol. Mae'n rhaid i'r rhain allu dangos ac egluro prynu a gwerthu'r cyngor a datgelu yn rhesymol gywir - ar unrhyw adeg - gyflwr ariannol y CFfC. Rhaid iddynt ganiatáu i'r Cyngor allu sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Gorchymyn Fferyllol 2010. Mae aelodau'r Cyngor  hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r CFfC ac felly rhaid iddynt gymryd camau i rwystro a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Drwy orchymyn y cyngor

**Nigel Clarke**
**Cadeirydd**
**13 Mehefin 2019**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

## Barn

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys datganiad incwm cynhwysfawr, datganiad sefyllfa ariannol, y fantolen, datganiad newidiadau mewn cronfeydd a nodiadau perthnasol. Y fframwaith adrodd a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi oedd deddfau perthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys SAC 102 'Y Safon Adrodd Cyllidol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon'. (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU).

Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn unig, fel corff, yn unol ag Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010. Rydym ni wedi ymgymryd â'r gwaith archwilio er mwyn gallu dweud wrth aelodau'r cyngor y materion hynny sydd angen eu cynnwys mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau pennaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb i neb heblaw am y Cyngor, a'r Cyngor fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y CFfC fel ar 31 Mawrth 2019 a'r gwarged ariannol oedd ganddo am y flwyddyn a ddaeth i ben yr adeg honno; ac
- wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol.

## Y sail i'n barn

Gwnaethom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (DU) (SRAau) (DU)) a deddfwriaeth berthnasol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moeseg yr FRG, ac rydym wedi cyflawni'r gofynion moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer creu sail i'n barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae gofyn i ni adrodd i chi, dan SRAau (DU) pan:

- nad yw defnydd aelodau'r Cyngor o sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw aelodau'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol y gellir eu hadnabod sy'n creu amheuaeth sylweddol am allu parhaus y Cyngor i barhau i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo am o leiaf 12 mis o'r dyddiad pan fo'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w rhyddhau.

## Gwybodaeth arall

Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilio ni arnynt. Nid yw'r wybodaeth arall yn rhan o'n barn ar y datganiadau ariannol ac nid ydym yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad ar y datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth sydd gennym drwy'r archwiliad neu'n ymddangos mewn ffordd arall eu bod wedi eu camddatgan. Os byddwn yn adnabod anghysonderau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae gofyn i ni benderfynu a oes camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad materol o ran y wybodaeth arall. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi ei wneud, bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau aelodau'r Cyngor, aelodau'r cyngor sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi adlewyrchiad gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y barna aelodau'r cyngor ei bod yn angenrheidiol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau materol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae aelodau'r cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol, a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol, oni bai bod aelodau'r cyngor yn bwriadu diddymu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol neu i ddod â gweithrediadau i ben, neu fod dim dewis ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a ydy'r datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau materol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad sydd wedi ei wneud yn unol a'r SRAau (DU) bob tro yn dod o hyd i gamddatganiad materol sy'n bodoli.  Gall camddatganiadau godi o dwyll neu o gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn rhai materol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau wrth archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn llunio rhan o'n hadroddiad archwilio.

**Crowe UK LLP**
**Archwilydd Statudol**
**Llundain, 14 Mehefin 2019**

## Datganiad incwm cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nod. | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 2 | 22,707 | 22,530 |
| Gwariant | 3 | (23,822) | (22,800) |
| **Diffyg gweithredol** | | (1,115) | (270) |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | 4 | 211 | 163 |
| **Diffyg ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant** | 5 | (904) | (107) |
| Trethiant | 6 | (38) | (31) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | (942) | (138) |

## Datganiad ar y sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019

| | Nod. | 2019 £000 | 2019 £000 | 2018 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau pendant | 7 | | 3,132 | | 3,804 |
| Asedau anniriaethol | 8 | | 746 | | 482 |
| | | | 16,378 | | 16,786 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 10 | 1,247 | | 1,737 | |
| Banc ac arian parod | 11 | 12,610 | | 13,814 | |
| | | 13,857 | | 15,551 | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | (15,228) | | (15,964) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | (1,371) | | (413) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 15,007 | | 16,373 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn neu fwy | 13 | | (2,462) | | (2,886) |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 14 | | (1,412) | | (1,412) |
| **Cyfanswm asedau net** | | | 11,133 | | 12,075 |
| **Cyllid a ddefnyddiwyd** | | | | | |
| Gwarged cronnol | | | | | |
| - Cronfa wrth Gefn gyffredinol | | | 7,255 | | 7,789 |
| - Cronfa wrth Gefn Asedau Sefydlog | | | 3,878 | | 4,286 |
| Cyfanswm y cyllid a ddefnyddiwyd | | | 11,133 | | 12,075 |

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo, eu hawdurdodi i'w cyflwyno a'u harwyddo ar ran y cyngor gan Nigel Clarke, Cadeirydd, 13 Mehefin 2019

## Datganiad llifoedd arian
## am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nod. | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged/ (diffyg) am y flwyddyn ariannol | | (1,115) | (270) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Dibrisiad ac amorteiddiad | 3 | 847 | 735 |
| Rhyddhau cymhelliant prydles | 13 | (453) | (453) |
| Treth | | (30) | (39) |
| (Cynnydd) / cwymp mewn dyledwyr masnach/eraill | | 490 | (91) |
| Cynnydd / (cwymp) mewn credydwyr masnach/eraill | | (706) | 54 |
| **Arian (ddefnyddiwyd), gweithgareddau gweithredol** | | **(967)** | **(64)** |
| **Llifoedd arian gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau sefydlog pendant | 7 | (29) | (247) |
| Prynu asedau sefydlog anniriaethol | 8 | (423) | (501) |
| Elw wrth waredu | | 4 | - |
| Llog dderbyniwyd | 4 | 211 | 163 |
| **Arian (ddefnyddiwyd)/darparwyd gan fuddsoddi** | | **(237)** | **(585)** |
| **Newid mewn arian a chyfwerth ag arian y cyfnod adrodd** | | **(1,204)** | **(649)** |
| Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | 13,814 | 14,463 |
| Arian a chyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd | | **12,610** | **13,814** |
| | | **£000** | **£000** |
| Arian mewn llaw | | 857 | 1,226 |
| Adneuon â rhybudd (llai na 3 mis) | | 11,753 | 12,588 |
| **Cyfanswm arian a chyfwerth ag arian** | | **12,610** | **13,814** |

## Datganiad newidiadau i gronfeydd
## am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Note | General Reserve | Fixed Asset Reserve | Total |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2017 | | 7,940 | 4,273 | 12,213 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | | 597 | (735) | (138) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | (748) | 748 | - |
| Ar 1 Ebrill 2018 | | 7,789 | 4,286 | 12,075 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | | (82) | (860) | (942) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | (452) | 452 | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | **7,255** | **3,878** | **11,133** |

Mae'r gronfa gronedig wedi ei rhannu'n Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ac yn Gronfa Asedau Sefydlog. Mae'r gronfa asedau sefydlog yn cynrychioli asedau swyddogaethol sy'n cael eu defnyddio'n weithredol. Mae'r gronfa gyffredinol yn cynrychioli balans cronfeydd wrth gefn cronedig y CFfC.

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

### 1. Polisïau cyfrifo

Sefydlwyd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) gan Orchymyn Fferyllol 2010 ac mae'n preswylio yn y Deyrnas Unedig. Y prif leoliad busnes ers Medi 2014 yw 25 Canada Square, Canary Wharf, Llundain, E14 5LQ.

### 1.1. Fformat y cyfrifon

Mae'n ofynnol bod y CFfC yn paratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor osod y cyfrifon ardystiedig gerbron y ddau Dŷ Senedd a Senedd yr Alban. Diben statudol y CFfC yw diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi ar sail sefydliad sy'n parhau, yn unol â safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Cyllid 102 - 'Y Safon Adrodd berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' ('FRS 102'). Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail costau hanesyddol.

Mae'r cymarebau wedi eu hailddatgan i adlewyrchu'r rhwymedigaeth sydd ar y CFfC i wneud yn iawn am ail-ddodrefnu'r eiddo ar Canada Square yn 2015. Mae rhagor o fanylion yn Nodyn 14.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling (£).

### 1.2. Amcangyfrifon cyfrifo a barn gritigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol ag SAARh, rhaid i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a ffurfio barn gritigol sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r amcangyfrifon a'r barnau wedi eu seilio ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill yn cynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol ar yr adeg y gwneir yr amcangyfrifon ac y ffurfir y farn dan sylw. Efallai y bydd yr hyn a fydd yn digwydd yn amrywio o'r amcangyfrifon.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r risg bennaf o achosi addasiad materol i'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu rhestru isod:

#### Dibrisiad ac amorteiddiad

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn cyfrifo dibrisiad ac amorteiddiad yn unol ag SAC 102. Mae'r gost dibrisiad ac amorteiddiad yn cydnabod dirywiad yng ngwerth yr ased a dyraniad o gost yr ased dros y cyfnod y defnyddir yr ased. Llunnir barn ar hyd bywyd defnyddiol yr asedau, ac fe'i hadolygir yn gyson er mwyn adlewyrchu amgylchedd newidiol.

### Dadfeiliad

Asesir darpariaethau ar gyfer dadfeiliad eiddo lle gellir, yn rhesymol, amcangyfrif y costau. Mae'r rhai yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

### Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cynnwys eiddo ar les ac offer. Mae'r holl asedau yn y categorïau hyn sydd â gwerth o £1,000 neu fwy wedi'u cyfalafu (gan gynnwys cost gweithredu). Mae asedau sefydlog wedi eu prisio fel cost llai dibrisiad.

Dyma hyd bywyd economaidd defnyddiol yr asedau:

Gwelliannau prydles byr – cyfnod y brydles

Celfi swyddfa – pum mlynedd

Meddalwedd cyfrifiadurol – tair blynedd

Caledwedd cyfrifiadurol (heblaw am PCs a gliniaduron) – tair blynedd

PCs a gliniaduron – un flwyddyn i bedair blynedd

## 1.3. Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a systemau cyfrifiadurol wedi eu datblygu'n fewnol. Mae pob ased yn y categori hwn sydd â gwerth £10,000 neu fwy wedi eu cyfalafu. Cyfrifir amorteiddiad ar sail llinell syth dros 3 blynedd.

## 1.4. Niwed

Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r CFfC yn adolygu symiau ei asedau i benderfynu a oes awgrym bod asedau wedi colli gwerth yn sgil niwed. Os oes awgrym o'r fath, mae swm adennill yr ased yn cael ei amcangyfrif er mwyn penderfynu maint y golled yn sgil niwed. Cofnodir colled yn sgil niwed yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn syth.

## 1.5. Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol pan fo'r nwyddau wedi eu derbyn neu'r gwasanaeth wedi ei ddarparu. Mae TAW anadferadwy wedi'i gynnwys gyda'r eitem gwariant y mae'n perthyn iddo.

## 1.6. Incwm

Mae'r holl ffioedd gan gofrestryddion a lleoliadau wedi'u cydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn y cyfnod maent yn perthyn iddo. Mae incwm sydd i'w briodoli yn y dyfodol wedi'i gynnwys gyda chredydwyr o dan y categori incwm gohiriedig.

Caiff llog ar fenthyciadau ac adneuon eu cronni fel y cânt eu hennill.

Cydnabyddir grantiau gan y llywodraeth ar sail y model cronedig ac fe'u cofnodir naill ai fel grant yn ymwneud â refeniw neu grant yn ymwneud ag asedau.

Dangosir pob incwm arall yn y datganiad incwm cynhwysfawr pan fo’n ddyledus.

### 1.7. Rhent prydles gweithredol

Cofnodir prydlesi fel prydlesi cyllid pan fo termau’r les yn trosglwyddo holl risg ac enillion yr ased sydd wedi ei brydlesi i’r endid. Cofnodir pob prydles arall fel prydlesi gweithredol. Cofnodir rhenti prydlesi gweithredol i’r datganiad incwm cynhwysfawr wrth iddynt godi dros dymor y brydles ar sail llinell syth. Mae’r budd cyfanredol ddaw o’r cymhelliant prydles yn cael ei gofnodi fel lleihad ar gost tymor y brydles ar sail llinell syth..

### 1.8. Pensiynau

Mae gan y CFfC gynllun buddion pensiwn diffiniedig a chynllun cyfrannu diffiniedig. Mae cyfraniadau i’r ddau gynllun yn cael eu nodi yn y datganiad incwm cynhwysfawr wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### 1.9. Darpariaethau

Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod pan fo rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, pan fo’n debygol y bydd gofyn i’r CFfC drosglwyddo buddion economaidd a phan fo’n bosibl mesur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

### 1.10. Rheoli adnoddau hylifol a buddsoddiadau

Mae gan y CFfC un prif gyfrif cyfredol y gwneir ei holl drafodion dydd i ddydd ohono. Cedwir balans y cyfrif hwn mor isel â phosibl er mwyn sicrhau bod cronfeydd dros ben yn cael eu cadw mewn cyfrifon cadw tymor byr i dymor canolig. Y polisi o ran arian parod yw mwyhau enillion tra’n cadw risgiau mor isel â phosibl. Cofnodir arian parod ac adneuon ar gyfer enillion hir dymor mewn 12 mis a mwy o fewn buddsoddiadau.

### 1.11. Offerynnau ariannol

Dim ond gyda thrafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy’n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol megis masnach a chyfrifon taladwy a derbyniadwy eraill, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partïon a benthyciadau’n ymwneud â phartïon cysylltiedig y bydd y CFfC yn ymwneud. Nodir offerynnau ariannol sylfaenol i gychwyn gyda’u gwerth trafodion ac fe’u mesurir wedyn ar y costau amorteiddio.

## 2. Incwm

| | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| Fferyllwyr | 14,668 | 14,487 |
| Lleoliadau | 3,704 | 3,757 |
| Technegwyr fferyllol | 2,920 | 2,889 |
| Cyn-gofrestru | 1,125 | 1,094 |
| Incwm grant | 16 | 16 |
| Incwm arall | 274 | 287 |
| **Cyfanswm incwm** | **22,707** | **22,530** |

## 3. Gwariant

| | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| Costau cyflogeion: cyflogres | 12,554 | 11,828 |
| Costau eraill cyflogeion | 3,232 | 2,754 |
| Costau eiddo | 278 | 322 |
| Costau swyddfa | 410 | 431 |
| Costau proffesiynol | 2,082 | 2,293 |
| Costau digwyddiadau | 467 | 458 |
| Costau marchnata | 62 | 94 |
| Dibrisiad ac amorteiddiad | 847 | 735 |
| Costau cyllidol | 172 | 137 |
| Costau ymchwil | 60 | 28 |
| Costau TG | 1,327 | 1,438 |
| Costau eraill | 240 | 240 |
| Costau meddiannaeth | 2,091 | 2,042 |
| **Cyfanswm gwriant** | **23,822** | **22,800** |

## 3. Gwariant (parhad)

### Costau cyflogeion

Roedd costau cyflogeion yn cynnwys cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Cyflogau | 10,454 | 9,750 |
| Yswiriant Gwladol Cyflogwr | 1,182 | 1,116 |
| Costau pensiwn | 879 | 770 |
| Diswyddo | 39 | 192 |
| | **12,554** | **11,828** |

Nifer cyfartalog y staff oedd yn gyflogedig yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 oedd 248 (234 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018).

Mae rhestr isod o staff, heblaw am gyfarwyddwyr, sy'n ennill dros £60,000: (heb gynnwys costau diswyddo):

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---:|---:|
| £60,001 – £70,000 | 10 | 9 |
| £70,001 – £80,000 | 11 | 5 |
| £80,001 – £90,000 | 1 | 3 |
| £90,001 – £100,000 | 3 | 3 |
| £100,001 – £110,000 | - | 1 |
| £110,001 – £120,000 | 2 | 1 |
| £120,001 – £130,000 | - | 1 |
| £170,001 – £180,000 | 1 | 1 |
| | **28** | **24** |

Dan SAC 102, y personél rheoli allweddol yw'r sawl sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys y prif weithredwr a chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr.

## 3. Gwariant (parhad)

Roedd y tâl ar gyfer personél rheoli allweddol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 yn £803,657 (£821,031 ar 31 Mawrth 2018). Mae'r dadansoddiad o'u cyflog a'u buddion isod;

| Enw | Swydd | Tâl (wedi eu nodi mewn bandiau £10K) | * Budd mewn Nwyddau/ Wasanaethau (i'r £100 agosaf) |
|---|---|---|---|
| Duncan Rudkin | Prif Weithredwr | £170,000 - £180,000 | - |
| Claire Bryce-Smith | Cyfarwyddwr Mewnwelediad, Gwybodaeth ac Arolygu | £110,000 - £120,000 | - |
| Francesca Okosi | Cyfarwyddwr Pobl | £110,000 - £120,000 | £400 |
| Mark Voce | Cyfarwyddwr Addysg a Safonau | £90,000 - £100,000 | - |
| Matthew Hayday | Cyfarwyddwr Addasrwydd i ymarfer dros dro | £70,000 - £80,000 | £700 |
| Megan Forbes | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Dirprwy Brif Weithredwr | £40,000 - £50,000 | £300 |
| Carole Auchterlonie | Cyfarwyddwr Addasrwydd i ymarfer | £20,000 - £30,000 | - |

Mae buddion mewn nwyddau neu wasanaethau yn cynnwys gofal iechyd preifat ac aelodaeth campfa wedi ei sybsideiddio.

Ymunodd Carole Auchterlonie â'r sefydliad ar 7 Ionawr 2019 i gymryd lle Matthew Hayday.

Gadawodd Megan Forbes y sefydliad ar 10 Awst 2018.

Mae treuliau ar gyfer personél rheoli allweddol fel a ganlyn:

| Enw | Teithio | Llety | Cynhaliaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Duncan Rudkin | 1,223 | 126 | 34 | **1,383** |
| Claire Bryce-Smith | 1,497 | 821 | 61 | **2,379** |
| Mark Voce | 1,037 | 209 | - | **1,246** |
| Matthew Hayday | 65 | - | 7 | **72** |
| Francesca Okosi | 279 | 600 | - | **879** |

Ni hawliodd Carole Auchterlonie a Megan Forbes unrhyw dreuliau yn ystod y flwyddyn.

## 3. Gwariant (parhad)

Tâl y cyfarwyddwr oedd yn derbyn y cyflog uchaf fel lluosrif tâl canolrif:

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Pwynt canol band cyfanswm cyflog y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 175,000 | 175,000 |
| Canolrif cyfanswm tâl | 38,776 | 36,200 |
| Cymhareb tâl | 1:5 | 1:5 |

Tâl a threuliau aelodau'r cyngor:

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm tâl, aelodau'r cyngor | 227 | 208 |
| Cyfanswm treuliau a dalwyd i aelodau'r cyngor | 31 | 26 |
| | 258 | 234 |

## 4. Llog derbyniadwy ac incwm tebyg

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | 211 | 163 |
| | 211 | 163 |

## 5. Cyfanswm incwm cynhwysfawr

Nodir hyn ar ôl codi am:

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhent prydles gweithredol: cerbydau modur | 116 | 118 |
| Rhent prydles gweithredol: llungopiwyr | 9 | 18 |
| Rhent prydles gweithredol: adeiladau | 1,231 | 1,231 |
| Dibrisiad asedau sefydlog pendant | 688 | 716 |
| Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol | 159 | 19 |
| Tâl archwilwyr: ar gyfer gwasanaethau archwilio – Crowe | 22 | 21 |

## 6. Trethiant

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Treth gorfforaethol DU ar 19% yn ystod y flwyddyn | 38 | 31 |
| | **38** | **31** |

Dim ond ar incwm llog derbyniadwy ac incwm tanysgrifiad data, net costau priodol, y mae treth gorfforaethol yn daladwy yn ystod y flwyddyn.

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| | Gwelliannau prydles byr<br>£000 | Offer swyddfa<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Fel ar 1 Ebrill | 5,607 | 2,344 | 7,951 |
| Ychwanegiadau | - | 29 | 29 |
| Gwarediadau | - | (176) | (176) |
| **Fel ar 31 Mawrth 2019** | **5,607** | **2,197** | **7,804** |
| **Dibrisiad** | | | |
| Fel ar 1 Ebrill 2018 | 2,079 | 2,068 | 4,147 |
| Tâl am y flwyddyn | 582 | 106 | 688 |
| Gwarediadau | - | (163) | (163) |
| **Fel ar 31 Mawrth 2019** | **2,661** | **2,011** | **4,672** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Fel ar 31 Mawrth 2019** | **2,946** | **186** | **3,132** |
| Fel ar 31 Mawrth 2018 | 3,528 | 276 | 3,804 |

## 8. Asedau Sefydlog Anniriaethol

| | Meddalwedd gyfrifiadurol a datblygu systemau<br>£000 |
|---|---|
| Cost | |
| Balans ar 1 Ebrill | 501 |
| Ychwanegiadau | 423 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | 924 |
| Amorteiddiad | |
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | (19) |
| Tâl amorteiddiad am y flwyddyn | (159) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | 746 |

## 9. Buddsoddiadau

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Adneuon arian parod | 12,500 | 12,500 |
| | **12,500** | **12,500** |

Mae arian dros ben ar hyn o bryd yn cael ei fuddsoddi mewn adneuon arian parod, gyda dim mwy na 20% o'r arian mewn unrhyw un sefydliad, yn unol â'n polisi rheoli arian parod.

## 10. Dyledwyr

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Dyledwyr masnachol | 120 | 3 |
| Debydau uniongyrchol aelodau i'w casglu | 221 | 241 |
| Dyledwyr eraill | 69 | 103 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 833 | 1,298 |
| | | |
| Dyledwyr (yn daladwy mewn mwy nag un flwyddyn) | | |
| Dyledwyr masnachol | 4 | 92 |
| | **1,247** | **1,737** |

## 11. Banc ac arian parod

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Cyfrifon cyfredol | 857 | 1,226 |
| Cyfrifon cadw | 11,753 | 12,588 |
| | **12,610** | **13,814** |

Symudir arian o gyfrifau cadw i'r cyfrif cyfredol yn ôl y gofyn. Mae hyn yn sicrhau yr adenillir cymaint â phosibl ar arian cadw. Mae'r CFfC yn cynnal gwariant gweithredol 6 mis fel cronfa hylifedd wrth gefn ar gyfer rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

## 12. Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn un flwyddyn

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 673 | 920 |
| Treth gorfforaethol | 40 | 32 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 314 | 439 |
| Credydwyr eraill | 13 | 44 |
| Wedi cronni | 615 | 739 |
| Incwm wedi ei ohirio | 13,573 | 13,790 |
| | **15,228** | **15,964** |

Mae incwm wedi ei ohirio yn cynnwys y canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Incwm wedi ei ohirio gan aelodau a lleoliadau | 13,481 | 13,660 |
| Incwm arall wedi ei ohirio | 13 | 34 |
| Grant cyfalaf wedi ei ohirio | 79 | 96 |
| | **13,573** | **13,790** |

Mae pob incwm gohiriedig gan aelodau a lleoliadau yn cael ei ryddhau i incwm y flwyddyn wedyn.

## 13. Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 2,886 | 3,310 |
| Cronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | |
| Cynnydd rhent wedi cronni | 29 | 29 |
| Wedi ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn | (453) | (453) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **2,462** | **2,886** |
| Rhaniad y gronfa rhent: | | |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi mewn blwyddyn | 481 | 471 |
| **Ymrwymiadau cyfredol** | **481** | **471** |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi o fewn 2-5 mlynedd | 1,922 | 1,885 |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi mewn mwy na 5 mlynedd | 59 | 530 |
| **Ymrwymiadau nad ydynt yn gyfredol** | **1,981** | **2,415** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **2,462** | **2,886** |

Mae'r brydles ar 25 Canada Square yn Canary Wharf ar gyfer 15 mlynedd gyda chymal-torri prydleswr yn unig ar ôl 10 mlynedd. Mae'r CFfC wedi cael budd o gyfraniad cyfalaf o £4.4m, fel cymhelliant landlord, tuag at ail-ddodrefnu'r lleoliad. Mae'r cymhelliant hwn, a rhai eraill, yn cael eu gwasgaru dros gyfnod 10 mlynedd y brydles yn erbyn y costau rhent blynyddol.

## 14. Darpariaethau

| | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| Dadfeiliad | 1,412 | 1,412 |
| | **1,412** | **1,412** |

Yn dilyn adolygu prydles 25 Canada Square ac wedi derbyn cyngor proffesiynol, mae'r CFfC wedi darparu ar gyfer dadfeiliad. Mae'r rhwymedigaeth bosibl wedi codi yn sgil dodrefnu gwreiddiol y swyddfa yn 2014 ac felly ni fu newid i'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r un flaenorol.

## 15. Ymrwymiadau

Fel y mae ar 31 Mawrth 2019 lleiafswm taliadau prydles gweithredol y CFfC yw:

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| O fewn un flwyddyn | | |
| Cerbydau modur | 98 | 93 |
| Eiddo | 778 | 791 |
| Offer | 12 | 3 |
| | **888** | **887** |
| Rhwng un flwyddyn a phum mlynedd | | |
| Cerbydau modur | 190 | 99 |
| Eiddo | 3,113 | 3,162 |
| Offer | 29 | - |
| | **3,332** | **3,261** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | | |
| Eiddo | 97 | 889 |
| | **97** | **889** |

Y taliadau prydles ariannol blynyddol dan brydles gweithredu'r eiddo yw £1.2m. Mae'r ymrwymiad a nodir uchod yn ystyried y cymhelliant prydlesi a dderbyniwyd ar gychwyn y brydles ac sy'n cael ei amorteiddio ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles ar £0.5m.

## 16. Partïon cysylltiedig

Dangosir tâl a threuliau a dalwyd i aelodau'r cyngor yn nodyn 3 (tâl a threuliau aelodau'r cyngor).

## 17. Rheoli risg ariannol

Mae gan y CFfC fframwaith rheoli risg ffurfiol y mae'r Cyngor yn atebol amdano. Mae'r CFfC yn agored i risg hylifedd. Amcan y CFfC wrth reoli risgiau hylifedd yw sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol pan fônt yn ddyledus. Mae'r CFfC yn disgwyl cyflawni ei oblygiadau ariannol drwy lifoedd arian gweithredol. O ystyried argaeledd arian parod, mae'r CFfC mewn sefyllfa i allu cyflawni ei ymrwymiadau a'u goblygiadau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae cronfeydd yn cael eu gosod mewn sefydliadau graddfa fuddsoddi.

## 18. Pensiynau

### Cynllun Buddion Pensiwn Diffiniedig GIG

Mae'r CFfC yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG mewn perthynas â 94 o gyflogeion (2018: 99 o gyflogeion). Nid yw'r cynllun yn cael ei redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran nhw o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun. Felly, cyfrifir y cynllun fel petai'n gynllun cyfrannu diffiniedig: bernir bod y gost i'r Corff GIG sy'n cyfrannu at y cynllun yn hafal â'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn ystod y cyfnod cyfrifo. Mae'r tâl pensiwn ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys cyfraniadau taladwy i gynllun y GIG, sef £657,487 (2018: £682,033).

Mae gwerth rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2019 wedi ei seilio ar ddyddiad prisio 31 Mawrth 2018, wedi ei ddiweddaru at 31 Mawrth 2019 gyda data aelodau a chyfrifo cynhwysol cryno. Diben y prisiad hwn yw asesu lefel rhwymedigaeth o ran y buddion sy'n ddyledus dan y cynllun (gan ystyried profiad demograffig diweddar) ac i argymell cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogeion a chyflogwyr. Mae rheoliadau'r cynllun yn caniatáu i lefelau'r cyfraddau cyfrannu gael eu newid gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, gyda chydsyniad Trysorlys Ei Mawrhydi, ac ystyriaeth o gyngor actwari'r cynllun a chynrychiolwyr cyflogeion a chyflogwyr fel y bernir yn briodol.

Cwblhawyd y prisiad actwaraidd diweddaraf ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth 2016. Gosododd canlyniadau'r prisiad hwn y cyfraddau cyfrannu gan gyflogwyr o Ebrill 2019. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar wedi gosod rheoliadau ar y cynllun yn cadarnhau y bydd cyfradd cyfrannu cyflogwyr yn codi i 20.6% o gyflog pensiynadwy o'r dyddiad hwn. Fodd bynnag, bydd y CFfC yn talu'r gyfradd 14.38% ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 gan y bydd y cynnydd yn y raddfa yn cael ei dalu'n ganolog.

Roedd disgwyl i brisiad 2016 hefyd roi prawf ar gost y cynllun mewn perthynas â'r terfyn cost a osodwyd ar gyflogwyr yn sgil prisiad 2012. Yn sgil penderfyniad gan y Llys Apêl yn Rhagfyr 2018 cyhoeddodd y llywodraeth oedi i'r rhan honno o'r broses brisio tra'n disgwyl i'r broses gyfreithiol ddod i ben.

### Cynllun cyfrannu diffiniedig

Mae’r CFfC hefyd yn gweithredu cynllun cyfrannu diffiniedig. Cyfanswm y cyfraniadau i’r cynllun hwn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 oedd £221,540 (2018: £87,243) o ran 120 o gyflogeion (2018: 120 o gyflogeion). Roedd y cynnydd mewn costau pensiwn yn ganlyniad i gynnydd yn isafswm cyfraniad cyflogwyr o 1% i 3%.

Mae cyfraniadau gan gyflogeion yn wirfoddol, er bod angen optio pob aelod staff i mewn i gychwyn. Pan fo cyflogai yn dewis bod yn aelod, bydd y CFfC yn cyfrannu fel a ganlyn:

| Cyfraniad cyflogai | Cyfraniad cyflogwr |
|---|---|
| 3-5% | 3-5% |
| 6% | 12% |
| 7% | 14% ar y mwyaf |

O Ebrill 2019 bydd lleiafswm cyfraniad cyflogeion a chyflogwyr yn codi i 5%.

## Atodiad 1: Penderfyniad Cyfrifo’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferyllol 2010

Mae Eu Harglwyddi yn penderfynu fel a ganlyn wrth ymarfer y pwerau a roddir gan Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferyllol 2010.

Mae'r penderfyniad hwn yn weithredol o 13 Mawrth 2010.

### Dehongliad

1. Yn y penderfyniad hwn –

mae "y cyfrifon" yn golygu'r datganiad cyfrifon y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor eu paratoi dan adran 2 Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferyllol 2010

mae "y Cyngor" yn golygu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

### Penderfyniad

2. Rhaid i’r Cyngor baratoi’r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn galendr yn unol â’r egwyddorion cyfrifo a’r anghenion datgelu a ddisgrifir yn y Safonau Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP).
3. Bydd y cyfrifon cyntaf yn cael eu paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol  2010-2011, ac yn cynnwys datganiad ar unrhyw gyfrifon sy’n weddill o’r flwyddyn ariannol 2009-2010.
4. Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi i:
    - roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn galendr ac o'r incwm a'r gwariant, cyfanswm enillion a cholledion (neu, fel y bo'n briodol, enillion a cholledion), a llif arian y Cyngor am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben; a
5. Bydd cydymffurfio gyda'r GAAP yn angenrheidiol, heblaw am mewn amgylchiadau neilltuol, er mwyn i'r cyfrifon roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad yn y flwyddyn ariannol dan sylw.
6. Os oes amgylchiadau neilltuol o'r fath ac y byddai cydymffurfio â gofynion y GAAP yn arwain at baratoi cyfrifon sy'n anghyson gyda'r anghenraid iddynt fod yn adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn, dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad y dylid gwyro oddi wrth y GAAP.
7. Mewn achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff 5, dylid defnyddio crebwyll diduedd a gwybodus i lunio triniaeth wahanol sy'n gyson gyda nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw.
8. Dylid trafod gwyro materol o'r GAAP, gyda'r Cyfrin Gyngor gyntaf mewn unrhyw amgylchiadau.
9. Rhaid atgynhyrchu'r penderfyniad hwn fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

Arwyddwyd drwy awdurdod y Cyfrin Gyngor

**General Pharmaceutical Council**
**25 Canada Square, London E14 5LQ**
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPHC**
**TheGPHC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**